DUWIOL-SWYDDAU.

A

GWEDDIAU

IW HARFER YN DDIRGEL

AR

AMRYW ACHOSION:

CYFFREDIN

AC

ANGHYFFREDIN.

O Gyfieithiad *Edward Samuel* Perſon *Bettws Gwerfil Goch.*

Argraphwyd yn y *Mwythig* gan *John Rhyddorch* tros yt Awdwt.

CWESTIYNAU

I'W HARHAU TRWY DDIWYGIAD

AR

GAMRAU WAHODDIADOL

CYFFREDIN

AC

ANGHYFFREDIN.

Y DARLLENYDD CHRISTNOGOL

ER Cyfarwyddo a chynnorthwyo dy Ddduwiolfryd Sanctaidd, mi a luniais i tirai FFURFIAU, O WEDDI iw harfer yn DDIRGEL ar *Amryw achoſion*; Os tybir mae Efgeuluſdra ydyw nad oes ynnz 'r un i Deuluoedd, rhaid i mi atteb trofot fy hun, nad yw hynny o herwydd nad wy 'n gwybod y dylid addoli Duw yn ein Teuluoedd, Cyſtal ag yn ein dingelfaoedd; ond o ran ddarfod i Ragluniaeth Duw ar Eglwys ddarparu i ti euſys ir perwyl hwnnw yn anfeidrol gwell nag y medrai fy holl otal i wneuthur, ſef, yn Y LLYFR GWEDDI GYFFREDIN, yr hwn am bob Cyfarchiadau Cyhoeddus at Dduw [a chyfryw ydyw Gweddiau mewn Teulu] ſydd mor rhagorol ac mor lleſol ag y gellir dywedyd am dano, megys y dywed *Dafydd* am Gleddyf *Goliab*, 1 *Sam.* 21. 9. *nad oes yr un oi fath ef.*

HYFFORDDIADAU am y BOREU

Pan ddeffroech gyntaf y boreu, dercha dy Galon at Dduw yn hon, neu 'r cyffelyb weddi ferr.

O Arglwydd, megys y deffroaiſt fy Nghorph o gyſcu, felly trwy dy râs deffro fy Enaid oddiwrth bechod, a channiattâ i mi felly rodio ger dy fron di y Dydd heddyw, a holl ddyddiau fy Einioes, fel pan ddêl yr Udcorn diweddaf i'm deffroi om bêdd, y gallwyf gyſodi ir Fuchedd anfarwol, trwy Jeſu Griſt.

Gwedi dechreu o honot ſel hyn, na âd [heb ryw angenrhaid anſeorol] i ddim myfyrdod y bydol lenwi dy feddwl nes talu o honot dy Addoliadau duwiol-barchediccaf ir Hollalluog Dduw, ac am hynny tra bych yn ymwiſco [ac ni ddylai hynny gymmeryd dim hwy amſer nag ſydd gyfaddas o ran trefnuſtrwydd a Gweddeidd-dra cyffredinol] gad i'th Feddwl redeg ar ryw yſtyriaethau yſprydol. I hyſpyſſu hyn, yſtyr i ba *Brofedigaethau* y mae dy *Achoſion* neu dy *Gymdeithion* yn debyg o'th beryglu 'r duthwn hwnnw, ac ymarfoga â llawnfwriadau yn eu herbyn; neu yſtyr dracheſn pa *odfeydd i wneuthur gwaſanaeth* i Dduw, neu ddaioni i'th Gymmydog ſydd debyccaf o ymgynnig iti 'r diwrnod hwnnw, a dyro dy gwbl-fryd ar wneuthur y goreu o honynt, a bwriada hefyd pa fodd iw tycciannu hyd yr eithaf. Ond f'a fydd cymmwys i ti yn ahad dim ymorol a ddarfu i un pechod ddianc gennyt er pan 'th holaiſt dy hun y nos or blaen. Os bydd dim ennyd gennyt ar ol yr yſtyriaethau hyn, ti a elli wneuthur defnydd da o honaw wrth fyfyrio ar yr *Adgyfodiad* Cyffredinol [ar hyn y mae 'n Cyfodiad on gwelau yn gyffelybiaeth] ac ar y *Farn* ofnadwy a fydd ar ol hynny, ac yna meddwl ynot dy hun ymmha Barodrwydd yr ydwyt, a dod dy lawn fryd ar gynnhilo 'n ofalus bob munyd o'th amſer i'th gymmhwyſo erbyn y Cyfri' mawr hwnnw. Pan fych gyntaf yn barod, ymneilltua i ryw le dirgel, ac yno offrwm i Dduw dy Aberth Boreuol o Foliant a Gweddi.

Gweddiau am Gyfoneu.

Wrth ymoſtwng ar dy liniau, dywed,

Y Gogoned lân Fendigaid Dfindod, Tri Perſon ac un Duw, trugarha wrthyf wir Bechadur truan.

O Arglwydd, nis gwn pa fodd i weddio fel y dylwn, gad i'th Yſpryd gynnorthwyo fy ngwendid, am nerthu i offrwm Aberth yſprydol Cymmeradwy gennyti trwy Jeſu Grift.

Diolchgarwch.

O Arglwydd graſuſol, yr hwn y mae ei Drugareddau yn parhau yn dragywydd, myfi dy was annheilwng yr hwn a brofais gymmaint o honynt, a chwennychwn dalu i ti Deyrnged o Foliadau goſtyngediccaf am danynt. Ynot ti O Arglwydd, yr wyf yn byw yn ſymmud ac yn bod; Tydi am gwnaethoft ar y Cyntaf, ac wedi hynny, fel na bydd wn annedwydd eithr yn wynfydedig, ti a ddanfonaiſt dy Fab o'th tynwes i'm gwared rhag rhwyfo fy mhechodau trwy ei Râs, a rhag y Golpedigaeth ddyledus am danynt trwy ei waed, ac i'm dwyn iw Ogoniant trwy bob un or ddau. Ti a'th Drugaredd a wnaethoft i mi gael fy ngeni o fewn dy Gorlan arbennig, ſef yr Eglwys Grift nogol, lle i'm cyflegrwyd yn fuan i ti trwy Fedydd, ac mi a gefais ran or holl Gymmorthion yſprydol, a allai fy nghynnorthwyo i gywiro'r adduned a wneuthym yno; ac wedi methu gennyf wneuthur hynny trwy fy mhengaledrwydd neu fy Efgeuluſdra fy hun, etto Tydi o'th anfeidrol Drugareddau nid adewaiſt

mo'nof, eithr gwahoddaiſt fi 'n raſuſol i Editeirwch, a ganiatteaiſt i mi bob moddion oddiſewn ac oddiallan i wneuthur hynny, ac a ddiſgwyliaiſt wrthyf a mawr ammynedd, heb fy nhorri i lawr yn y weithred, fel yr haeddais yn gyfiawn jawn, o herwydd yr amryw Bechodau melldigedig a wneuthym. Dy Râs gochelgar, o Arglwydd, am cadwodd rhag pob rhyw un or Pechodau mwyaf, a'th Râs cynnorthwyol am nerthodd ac am cynnhyrfodd i bob gweithred dda er lleied ydoedd, ac am hynny Nid i mi, nid i mi, ond i'th Enw di y bo'r moliant ar Gogoniant. Am y rhain a'th holl ſendithion yſpryd ol Eraill F' Enaid a fawrha 'r Arglwydd, a chwbl y ſydd ynot a folianna ei Enw Sanctaidd Et. Mi a'th foliannaf hefyd am yr holl Fendithion amſerol yr wyf yn eu mwynhau megys Jechyd, Caredigion, lluniaeth a Dillad, Diddaniadau yn gyſtal ag Angenrheidiau 'r ſuehedd hon, am waſtadol nodded a chymmorth dy Law, trwy 'r hyn i'm cedwir i am heiddo rhag peryglon, ar ymwarediadau graſuſol a ganiatteaiſt yn fynych i mi oddiwrth y rhai a ſyrthiaſant arnaf, ac am dy Drugaredd yn pereiddio ac yn lliniaru 'r blinderau na welaiſt yn gymmwys mo'u troi yn hollawl oddiwrthyf; yn enwedig am fy nghadw o honot y nos neithiwyr, ac am dy holl ddoniau Eraill i mi. Caniatta, O Arglwydd, fod i mi dalu i ti nid ffrwyth fy ngwefuſau 'n unig, Eithr uſudd-dod fy mywyd, fel y byddo 'r Bendithion hyn yma yn wyſtlon or Bendithion ardderchoccach a ddarperaiſt ir ſawl a'th Garant, a hynny er ei twyn Ef, yr hwn a wnaethoſt yn Awdur Jechydwriaeth trag'wyddol ir rhai oll a uſuddhant iddo, ſef Jeſu Grift.

Cyffes.

O Arglwydd cyfiawn, yr Iwn a gaſſei Anwiredd, myfi dy Greadur Pechadurus wyt yn ymoſtwng

wrth

wrth dy Draed, gan gydnabod haeddu o honof yn gyfiawn gael fy ngwrthod am fieiddio gennyt, Canys ytais anwireidd fel Dwfr, euthym rhagot mewn buchedd o Bechod a Gwrthryfel ith erbyn, gan wneuthur beunydd y pethau a waherddir, a gadel heb wneuthur y pethau a orchymmynnir gennyt; Fy nghalon a ddylai fod yn breſwyliod i'th Yſpryd. a wnaed yn nythle i Adar afian, i wyniau ffiaidd afreolus; ac o helaethrwydd y Galon y mae fy ngenau 'n llefaru, fy nwylo 'n gweithredu, ac felly 'r wyf beunydd yn troſeddu yn dy erbyn ar Feddwl, Gair a Gweithred [*yma crybwyll am dy bechodau mwyaf*] I'e O Arglwydd, mi a ddiyſtyrais dy Ddaioni a ddylaſei fy arwain i Edifeirwch, gan galedu fy nghalon yn erbyn yr holl foddion a arferaiſt er fy ngwellâd. A pha beth bellach a ddiſgwyliat, O Arglwydd, ond Barnedigaeth a digter llidiog, yr hyn yw dyledus wobr fy mhechodau? Ond O Arglwydd, y mae gyda thi Drugaredd fel i'th ofner. O eymmwyſa ſi i gael y Drugaredd honno, trwy roddi i mi ddwys a diragrith Edifeirwch; ac yna o'th ddaioni trô ymaith dy lid a'th Ddigoſaint oddiwrthyf; Edrych arnaf yn dy Fab, fy mendigedig Jachawdr, ac er mwyn Haeddedigaeth ei Ddioddefiadau, maddeu fy holl Bechodau. Ac mi a attolygaf i ti, O Arglwydd, trwy nerth dy râs felly adnewyddu a phuro fy nghalon, fel y gwneler ſi yn Greadur newydd, gan lwyr gaffau pob ffordd ddrwg, a byw mewn dianwadal a diſtuant a chyffredinol ufudd-dod i ti holl Ddyddiau fy Einioes, fel gan ymddwyn o honof megis Gwas Da ffyddlon, y Gaffwyf yn y diwedd trwy dy Drugaredd di, fy ngwahodd i mewn i Lawenydd fy Arglwydd, Caniatta hyn er mwyn Jeſu Griſt.

Gweddi am râs.

O Dduw Grasusaf, oddiwrth yr hwn y mae Pob rhoddiad Daionus a phob rhodd berffaith yn deicyn, myfi Greadur truan yr hwn ni fedrai o honof fy hun gymmaint a meddwl un meddyliryd da, a attolygaf i ti weithio ynot i Lwyllyfio ac i wneuthur yn ol dy Ewyllys daionus di. Golcua fy meddwl fel i'th adnabyddwyf, ac na bwyf ddiffrwyth a didoraeth yn y wybodaeth honno; Arglwydd, gweithia yn fy nghalon wir ffydd, Gobaith buredig a diragrith Gariad i ti; dyro i mi gyfiawn ymddiried ynot, Zêl trofoti, Parch i bob peth a berthyn i ti; Gwna fi'n ofnus rhag dy ddigio, yn ddiolchgar am dy Drugareddau, yn oftyngedig tan dy geryddon, yn wir ddduwiolfryd yn dy wafanaeth, yn blaethus am fy mhechodau; a chaniatta allu o honof ym mhob peth ymddwyn fel y gweddai i Greadur wneuthur iw Greawdwr, a Gwâs iw Arglwydd. Nertha fi hefyd i gyfiawni 'r Ddledfwydd fydd arnaf i mi fy hun; dod i mi 'r Addfwynder, y Coftyngeiddrwydd ar Bodlonrwydd, fel y meddiannwyf fy Enaid bob amfer mewn Ammynedd a Diolchgarwch; gwna fi 'n ddiwyd yn fy holl Ddledfwyddau, yn wiliadwrus yn erbyn pob Profedigaethau, yn burlan ac yn gymmhedrol, ac mor gymmhefur ym mwyniant y pethau fydd fwyaf Cyfreithlon, fel na byddont byth yn fagl i mi; Dyro i mi hefyd, O Arglwydd, y fath Lueddfryd tuag at fy Nghymmydog fel na throfeddwyf byth yn erbyn dy Gyfraith Frenhinol fy 'n peri i mi ei garu Ef fel fi fy hunan; Caniatta i mi allu Cyfiawni yn union holl rannau Cyfiawnder, gan adael i Bawb bob peth fydd trwy fath yn y byd ar Hawl gyfiawn yn ddledus iddynt, a dyro i mi 'r fath ymmyfcaroedd o Drugaredd a Thofturi fel na phallwyf byth yn gwneuthur pob

Cym-

Cymmwynasau Caredigol ac Eluſengar i bob Dyn, pa un bynnag ai Caredigion ai Gelynion, yn ol dy Orchymmyn a'th Eſampl di. Yn ddiweddaf, mi a attolygaf i ti, O Arglwydd, ty ſanctteiddio i oddiſewn ac oddiallan, fel y cadwer fy holl yſpryd, fy Enaid am Corph yn ddiffeus hyd ddyfodiad ein Harglwydd Jeſu Grift, ir Hwn gyda thi ar Yſpryd Glan bydded yr holl anrhydedd ar Gogoniant byth bythoedd, Amen.

Cyfryngdod.

OFendigedig Arglwydd, yr hwn y mae dy Drugaredd goruwch dy holl weithredoedd, mi a attolygaf i ti drugarhau wrth bob Dyn, a chaniatta ir pridwerth gwerthfawr a dalodd dy Fab tros Bawb, fod yn Effeithiol i bawb er jechydwriaeth; Dyro dy ras i oleuo 'r ſawl ſydd mewn tywyllwch, ac i ymchwelyd y rhai ſydd mewn pechod; Edrych a'th Toſturiaethau tyner-garediccaf ar yr Eglwys Gyffredinol. Bydd raſlon a thrugarog, i *Sion* adeilada furiau *Jeruſalem*. Gwna Bawb a addefont dy Enw yn *un* a Thydi trwy burdeb a Sanctteiddrwydd, ac yn un au gilydd trwy Gariad Brawdol. Trugarha wrth yr Eglwys anrheithiedig ar Wlad Bechadurus hon; Gwnaethoſt ir Ddauar grynu a holltaiſt hi, Jacha ei Briwiau, Canys y mae 'n Crynu; gwna ni mor wir Edifeiriol am y Pechodau a gyffroeſant dy Farnedigaethau, fel y byddo i titheu hefyd ymchwelyd ac Edifarhau a gweddill bendith ar dy ol; Bendithia 'r ſawl a oſodaiſt yn Llywodraethwyr arnom yn yr Eglwys ar wladwriaeth: Rheola feſſy eu Calonnau a chadarnha eu dwylo, fel na byddo arnynt byth Eiſieu Ewyllys a Gallu i goſpi Pechod ac Anwiredd, ac i amddeffyn dy wir Grefydd ei a Rhinwedd dda. Toſturia O Arglwydd, wrth Bawb ſydd mewn Blinder ac Adfyd; Bydd Dad ir ymddifad a Dadleu tros y Weddw. Cyſſura 'r ſawl ſy'

a gwangalon, cynnal y Gweiniaid, jachâ 'r clwyfus, diwalla 'r anghenus, anddeſtyn y Gorthrymmedig, a chyſtranna i Bawb yn ol eu hamraſael angenrheidiau; Gorphwyſed dy Fendith ar bawb ſydd yn agos ac yn anwyl gennyf, a chaniattâ iddynt bob peth a welych yn angenrheidiol iw Cyrph a'u Heneidiau, [yma henwa dy *Gyfneſyſiad agoſaf*] Gwobrwya bawb a wnaethant i mi Ddaioni, a maddeu i Bawb a wnaethant, neu a chwennychaſant ddrwg i mi, a Gweithia ynddynt Hwy a minneu bob daioni an gwnelo 'n gymmeradwy yn dy olwg di, trwy Jeſu Griſt.

Am Gadwraeth.

O Dduw Trugarog, trwy Haelioni yr hwn yn unig y mae 'r Dydd hwn gwedi ei ychwanegu at fy Einioes, mi a attolygaf i ti fy hyfforddio cyſtal ynddo trwy dy ras, fel nas gwnelwyf ddim 'a baro ddirmyg i ti na niweid im Henaid fy hun, ond ymroddi o honof yn ddiwyd at bob gweithred dda a barottoaiſt ti imi i rodio ynddynt. Ac O Arglwydd, mi a attolygaf i ti, dyro i'th Angylion orchymmyn am danaf i'm Cadw yn fy holl ffyrdd, fel na ddigwyddo i mi niweid, ac na ddelo pla yn agos i'm pabell, ond fel y byddwyf fi am Heiddo yn ddiogel tan dy fendigedig nodded trwy Jeſu Griſt.

O Arglwydd, maddeu gyfeiliornad ac oerni yr Erfyniadau hyn, a gwna am fi nid yn ol fy ngweddiau neu fy Haeddedigaethau, ond yn ol fy angenrheidiau i a'th oludog Drugareddau ditheu, yn Jeſu Griſt, yn Enw bendigedig a geiriau yr Hwn y gorphennaſ fy ngweddiau ammherffaith hyn, gan ddywedyd.

Ein Tâd yr hwn wyt yn y Nefoedd &c.

Hyfford-

YNOS, pan fo amſer gorphwyſdra yn neſſau, meddwl ynot dy hun, pa ſodd y bwriaiſt y diwrnod heibio; Hola dy Galon dy hun pa bechod a wnaethoſt ar Feddwl Gair neu weithred, pa gyſteuſſdra i wneuthur Daioni a eſgeuluſaiſt, ac am ba beth bynnag y gwelych achos i'th gyhuddo dy hun; Cyfaddef hynny'n oſtyngedig ac yn Edifeirtiol ger bron Duw, adnewydda dy amcanion a'th fwriadau i ymwellhau. a gofyn faddeuant iddo er mwyn Chriſt, a hynny nid yn yſgafn, ac yn unig o ran defod ac arfer, eithr trwy bob Duwiol ddifrifwch ac Ewyllys Calon, megis y gwnelit ped fai'n ddiogel gennyt fod dy Farwolaeth cyn agoſed a'th Gwſc; ac felly am a wyddoſt y gall fod yn wir, ac am hynny ni ddylit feiddio Cyſcu mwy nag y rhyfygit farw heb ymgymmodi â Duw. Yn neſaf, yſtyr pa Drugareddau yſpeſol ac anarferedig a dderbyniaiſt y dwthwn hwnnw, neu gy, os Cefaiſt ryw fawr ymwared, naill yn dy Ddyn oddimewn, oddiwrth ryw Brofedigaethau peryglus; ai yn y Dyn oddiallan oddiwrth ryw Enbydrwydd mawr eglur, ac o Eigion Duwiolfryd Calon, abertha foliant i Dduw am dano. Neu os na ddigwyddodd dim anarferol, a chael o honot dy gadw oddiwrth gychwynfa pob perygl. nid llai eithr mwy o achos ſydd iti i fawrygu Duw, yr hwn trwy ei Nodded a'th amddeffynodd Cyſtal, ac na bu raid i ti gymmaint ag ofni mweid. Ac am hynny nac eſgeuluſa dalu iddo'r Deyrnged o Ddiolchgarwch goſtyngedig, yn gyſtal am ei amddeffyniadau arferol a beunyddiol, ag am ei ymwarediadau mwy anarferedig Ac uwchlaw pob dim, Cais byth wrth yſtyr ei Drugareddau gyſſylltu dy Galon fwyfwy ag Eſ, gan gofio, fod pob Caredigrwydd a dderbyniech ganddo, yn rhwymedigaeth newydd arnat iw garu ac ufuddhau iddo.

Gweddiau

Gweddiau am y Nis.

Y Gogoned Lân Fendigaid Drindod, Tri Phersson ac un Duw, Trugarha wrthyf wir Bechadur truan. O Arglwydd, nis gwn pa beth i weddio am dano fel y dylwn, bydded i'th Yspryd gymmorth fy ngwendid, am Cynnorthwyo i offrwm aberth Ysprydol, Cymmeradwy ger dy fron trwy Jesu Grist.

Cyfaddefiad.

O Arglwydd Dduw Sanctteiddiaf, yr hwn wyt o burach golygon nag yr edrychi ar anwiredd, Pa fodd y meiddiai i Adyn truan, yr hwn nid wyf ddim ond llygredigaeth, ymddangos ger dy fron? mae fy natur yn halogedig, yn wrthnyfflig i bob Daioni ac yn chwannog i bob drwg; ond mi am halogais fy hun etto yn waeth o lawer trwy fy mhechodau fy hun am harferion drygionus: mi a droseddais fy nledfwydd i Ti, i'm Cymmydog, ac i mi fy hunan, a hynny ar Feddwl, Gair a gweithred, trwy wneuthur y pethau a waherddaifft yn bendant, ac esgeuluso'r pethau a orchymmynaifft i mi. A hyn nid yn unig trwy anwybodaeth a gwendid, ond yn wybodus ac yn Ewyllysgar. yn erbyn Cynnhyrfiadau dy Yspryd ac Argyoeddion fy nghydwybod fy hun ir gwrthwyneb. Ac i wneuthur y rhai'n oll yn bechadurus tros ben, mi a euthym rhagof i'th ddigio beunydd trwy adnewyddu yr unrhyw Bechodau, er i ti fy 'ngalw'n fynych, ac i minneu'n fynych amcanu ac addunedu gwellhau fy muchedd; I'c ni pheidiais y Dydd heddyw ag ychwanegu Pechodau newyddion at fy hên Euog-fawr gamweddau, [*Yma henwa dy Bechodau.*] A pha beth bellach, Arglwydd, a ddywedaf, a pha fodd yr agoraf fy ngenau gan wneuthur o honof y pethau hyn? mi a

syn

rn mai Cyflog y Pechodau hyn yw marwolaeth; Ond Oh! Tydi yr hwn ni Ewyllysi farwolaeth Pechadur, trugarha wrthyf; gwerthia ynof, mi a atolygaf i ti, ddiragrith Editeirwch am fy mhechodau a chyflawn gafaeb iddynt. Ac na âd i mi eu cyfaldet beunydd, a'u hadnewyddu mor feunyddiol heyd. Ond Caniatta, O Arglwydd, fod i mi or munyd yma allan, roddi llythyr Yfcar i'm holl Drachwantau anwylaf, ac yna bydded gwiw gennyt fy mhriodi a thi dy hun mewn Gwirionedd, mewn Cyfiawnder a Sancteiddrwydd. Ac am fy holl Bechodau yd yn hyn, O Arglwydd derbyn cymmod, Bydded Cymmeradwy gennyt y Pridwerth a dalodd dy wyntydedig fab trofofi, ac er ei fwyn Ef, yr hwn a ofodaift yn jawn, maddeu fy holl gamweddau, a derbyn fi i'th Garedig nodded. Ac wedi ymheddychu o honot fel hyn am henaid, Arglwydd cadw fi fel na ddychwelwyf byth drachefn at ynfydrwydd. Eithr fefydla fi mor ddiyfcog trwy dy ras, ag nad allo un Profedigaeth oddiwrth y Byd y Cythraul na'm Cnawd fy hun fy nenu byth i'th ddigio; felgan gael fy rhyddhau oddiwrth Bechod, am gwneuthur yn was i Ddduw, y byddo i mi fy ffrwyth yn Sancteiddrwydd am diwedd yn fywyd trag'wyddol, trwy Jefu Grift ein Harglwydd.

Diolchgarwch.

O Dad y Trugareddau, yr hwn wyt garedig ir anniolchgar 'rwy 'n cydnabod gael o honot brawf helaeth o'th raufol Briodoliaeth honno, Canys er i mi beunydd dy ddigio trwy fy mhechodau, yr wyt ti byth yn tywallt Trugaredd a Chraredigrwydd arnaf. Ni ddarfu i'm holl ddirmyg am diyfyrweh o'th Fendithion yfprydol, beri i ti etto mo'u tynnu oddiwrthyf, Eithr, o amlder dy Ddaioni a'th hirymaros, yr wyt fyth yn parhau i gynnig

im-

i mi ras a Bywyd yn dy Fab. Ac er maint a gamarferais ar dy Feddithion amserol, nim Cospaist trwy fy llwyr ddifeddiannu o honynt, eithr wyt yn gweled yn dda hepcor i mi gyfran haelionus o honynt. Ni thelaist i mi, sel y gallesit yn gyfiawn, am Bechodau'r Dydd heddyw, trwy fy yscubo ymaith a desiryw disymmwth, eithr arbedaist, ac amddeffynaist fi yn ol mawrhydi dy Drugaredd. [*Ymacrybwyll am Drugareddau amwedigol y Dydd hwnnw*] *Beth a dalaf ir Arglwydd* am ei holl Ddoniau hyn i mi? Arglwydd, Caniatta fod i'th Ddaioni ymaflyd arwain i Edifeirwch, a bod i mi nid yn unig abertthu i ti foliant a Diolch, ond gallu o honof hefyd dreulu fy ymddygiad yn jawn, sel y gallwyt yn y diwedd weled Jethydwriaeth Duw, trwy Jesu Grist.

Yma arfer y weddi am Râs; ar Cyfryngdod gosodedig am y Boreu.

Am Gadwraeth.

O Arglwydd Bendigedig, Ceidwad *Israel*, yr hwn nid wyt nac yn huno nac yn Cysgu, Bydded gwiw gennyt o'th Trugaredd wilio trosot y nos hon; cadw fi trwy dy ras oddiwrth holl weithredoedd y Tywyllwch, a thrwy dy Nerth amddeffyn fi oddiwrth bob peryglon, Cyniatta i mi gwic gymmhedrol im firioli am Cymmhwyso at Ddyledswyddau'r Dydd y for u. Ac, O Arglwydd, gwna i mi feddwl yn wastad am yr amser y gorweddwyf yn y llwch; ac o herwydd nas gwn nar Dydd nar Awr y daw fy Arglwydd, Caniatta i mi ras i fod bob amser yn barod, sel na byddwyf byw fyth yn y fath gyflwr, ag y bo arnaf Ofn marw ynddo; ond pa un bynnag ai Byw a wnelwyf, byw o honaf i ti Arglwydd ai marw, marw a wnelwyf ir Arglwydd, sel y byddwyf

ddwyf yn fyw ac yn farw yn eiddo ti trwy Jesu Grist.

Arfer yr un weddi i orphen ar Boreu.

Pan fych yn tynnu dy Ddillad oddiam danat, meddwl ynot dy hun fod yr amser yn nesu y bydd rhaid i ti ddiosc dy Gorph hefyd, ac yna y bydd rhaid i'th Enaid ymddangos yn Noeth ger bron Gorseddfainc Duw: ac am hynny ti a ddylit gymmeryd gofal am ei wneuthur cyn laned a chyn hured trwy Edifeirwch a Sancteiddrwydd, ag y bo ir Hwn mid edrych ar anwiredd, edrych arno yn rasusol ai ddierbyn yn gymmeradwy.

Pared dy wely iti feddwl am dy fedd, a phan orweddych, dywed.

O Jachwdr bendigedig, yr hwn trwy dy werthfawr Angeu a'th gladdedigaeth a dynnaist ymaith golyn Angeu a gallu'r Bedd, Caniatta i mi ffrwythau hyfryd y fuddugoliaeth honno, a bydd di yn mywyd ac Angeu yn Elw i mi.

Mewn Heddwch y gorweddaf, ac yr hunaf, Canys ti Arglwydd yn unig a wnei i mi drigo mewn Diogelwch.

I'th ddwylo di y gorchymmynaf fy Yspryd, Canys Tydi ai prynaist, O Arglwydd Dduw y gwirionedd.

YN y BRIF EGLWYS *yr oedd heb law Boreu a Hwyr bedwar amser arall bob dydd a elwid* ORIAU GWEDDI, *ac yr oedd yn y Christnogion Cyntaf y fath Zel ac awyddfryd Sanctaidd i bod yn ei cadw yn wastadol. F'a feddylid mai peth rhy gaeth*

gaeth grefyddol yn yr Oes lygoer hon, fyddai gweddio cyn fynyched: Etto ni fedraf lai na chrybwyll am yr Eſampl, a dywedyd am y ſawl nad yw rhyw Drafferthion llwyr angenrheidiol yn eu rhwyſtro, nâ bydd ond peth rheſymmol iddynt ei dilyn, a gwneuthur i fynu yn ddirgel ac yn gyhoeddus y PEDWAR AMSER GWEDDI, hynny, heb law 'r gwaſanaeth a oſodwyd euſys ar lawr am y BOREU ar NOS. Ac fel nâ bo ar neb Eiſieu gwybodaeth i arfer eu Duwioldeb ar yr amſeroedd hyn, mi a 'chwanegaiſ amryw weddiau neu GOLECTAU am amryw Radau, ot rhai y gall pob Dyn, ar bob cyfryw amſer, arfer cynnifer ag y byddo ei Zêl neu ei hamdden yn eu pennodi iddo, gan ychwanegu, os gwel yn dda, un or Cyfaddefiadau goſodedig am y Boreu ar nôs, heb un amſer Eſgeuluſo GWEDDI 'r ARGLWYDD.

Ond os bydd Dyn yn y byd yn wir mor drafferthus ei helynt, ag nad allo gael mor amſer i arfer Cyhyd Gweddiau, etto 'n ddiammeu mâ yw Gorchwyl neb yn pwyſo cyn drymmed arno nad all gael ennyd yn fynych yn y Dydd i ddywedyd GWEDDI 'r ARGLWYDD yn unig, ac am hynny dywedeid honno onid all ychwanegu. Ond o herwydd mai Clod Chriſtion yw bod ei ymarweiddiad yn y Neſoedd Phil. 3. 20. Cymmwys jawn heb law 'r amſeroedd goſodedig hyn, iddo ſaethu ei Enaid yno yn fynych yn y Dydd mewn Ochèneidiau byrion diſymmwth. Ac nâd all fod ar neb eiſieu Ennyd ir fath yma o Dduwioldeb, Canys f'a ellir ei wneuthur ar ganol gorchwyl. F'all y Crefftwr wrth ei waith, y Llafurwr wrth ei Aradr ei arfer. Ac megys nad all fod arno eiſieu amſer, fell y fel nâ bo arno Eiſieu defnydd i hynny, mi a dybiaf nad peth afleſol fyddai darparu iddo allan or Tryſorfa Goleddog, ſef LLYFR Y PSALMAU, rai Admoddau cymmwys i'w harfer ar yr achos yma, y rhai gwedi eu dyſcu allan or Llyfr a allant fod yn barod wrth law i oſod ei Dduwiolfryd ar waith; a chan

ell

eu bod o amryw ddefynyddiau, rhai am Faddeuant Pechodau, rhai am Râs, rhai am Lewyrch wynebpryd Duw, rhai tros yr Eglwys, rhai o Ddiolchgarwch &c. F 'all Pob Dyn gyfaddafu iddo 'i hun yn ol ei angen cyfamferol a thueddfryd ei Enaid. Nid megys Cafgl cyflawn y roddais y rhai'n, ond megys prawf i godi blŷs ar y Darllennydd i chwilio am ychwaneg yn y Llyfr hwnnw, a rhannau Eraill o'r Yfgrythyr Lân.

COLECTAU *am amryw* RADAU.

Am Ffydd.

O Arglwydd bendigedig yr hwn y mae'n ammhoffibl ei fodloni heb Ffydd, Gweithied dy Yfpryd, mi a attolygaf i ti, y fath Ffydd ynot ag a fyddo Cymmeradwy yn dy olwg di, fef Ffydd yn gweithio trwy Gariad. Na âd i mi ymtodloni ar ffydd farw ddiffrwyth Fithr, caniattâ iddi fod or fath ag a ymddangofo yn fy ngweithredoedd, fel y byddo 'n ffydd fuddugoliaethol i'm Cynnorthwyo i orchfygu 'r Byd, ac i'm Cydffurfio â Delw Chrift yn yr hwn yr wyf yn credu, fel y gallwyf yn y diwedd dderbyn diben fy ffydd, fef Jechydwriaeth fy Enaid trwy 'r unrhyw Jefu Grift.

Am Obaith

O Arglwydd, Gobaith holl Gyrrau 'r Ddaear na âd fi byth yn ddeffygiol o Obaith dda ei, fail, nac yn feddiannol chwaith o ryfyg ofer: na âd i mi feddwl yr ymgymmodi di am pechodau, neu y gwrthodi fy Edifeirwch: Ond dyro i mi, mi a attolygaf iti, y fath Obaith ag fydd gyfattebol i fyltaen Gobaith, fef dy Addewidion: ar fath hefyd ac am cehnogo ag am Cynnorthwyo i'm puro fy hun oddiwrth bob

 aflendid

aſſendid Cnawd ac yſpryd, fel y byddo ynwir i mi yn Angor Enaid ſiccr a ſafadwy, yn myned ir tû mewn ir llenn, lle mae y Rhagflaenor gwedi myned troſoſ, ſef Jeſu Grift, Fy Archoffeiriad am Prynwr bendigedig.

Am Gariad i Ddûw.

O Arglwydd Sanctaidd a Graſol, yr hwn wyt o anfeidrol odidowgrwydd ynot dy hun, ac o anfeidrol haelioni a thoſturi tuag attaf inneu, na ad, mi a attolygaf i ti, i'm Calon galedu cyn ſſyrnicced trwy dwyll Pechod, a gwrthwynebu'r fath Rinïau Cariad, Eithr bod fy Enaid mewn dwys a pharhaus deimlad o honynt. O Arglwydd, yr wyt yn gweled yn dda ofyn fy nghalon, ac i ti yn unig y mae hawl gyſiawn ynddi. O na chynnwys i mi fod yn gyſfryw gyſſegr-leidr anghyſiawn a thynnu oddiwrthyf un rhan o honi, Eithr cynnorthwya ſi iw rhoddi yn hollawl ac yn gyſan i ti. Ond, o fy Nuw, Ti a weli ei bod Euſys gwedi ei cham berchennogi, y Byd ai Hudoliaethau oſer a ymaflodd ynddi, ac y mae megys Cwr cadarn arfog yn cadw meddiant. O Tydi fy'n gryfach, rhuthra arno Ef, cymmer fy nghalon annheilwng hon megys anrhaith i ti dy hun, pura hi a than Coeth dy Gariad, fel y byddo yn breſwylfod gymmwys i'th yſpryd. Arglwydd os gweli yn dda dyro i mi brawf or gorfoleddiadau hyfryd, o Ddiddaniadau anfeidrol dy Gariad, y rhai a drallawenychodd dy Seinctiau. Ond os yn hyn, nis gwn beth yr wyf yn ei ofyn, onid allaf ddewiſty lle yn dy Deyrnas, Etto, O Arglwydd na ommedd i mi yfed o'th Gwppan. Dyro i mi'r fath rädd o bur ddiragrith gariad, ag a wnêl i mi ddioddef pob peth er dy fwyn di, y fath Gariad Perffaith ag a fwrio ymaith Ofn a Diogi hefyd, fel na welwyf ddim yn rhŷ ofidus iw ddioddef, nac yn rhy

thy anhawdd ei wneuthur o ran ufudd-dod i ti, fel gan ddacan fy nghariad wrth gadw dy Orchymmynion, y gallwyf yn y diwedd trwy dy Drugaredd fwynhau Coron y Bywyd, yr hon a addewaift ir fawl a'th Garant di, trwy Jefu Grift ein Harglwydd.

Am Burdeb.

O Arglwydd Sanctaidd, yr hwn a geri wirioneddoddimewn, yn oftyngedig attolygaf i ti fy nglanhau oddiwrth bob Rhagrith ac ammhurdeb. Y Galon fydd fwy ei thwyll na dim, am Calon inneu yn fwy ei thwyll na phob Calon: O Iydi, yr Hwn wyt Chwiliwr y Calonnau ar Arennau, praw fi a chwilia waelod fy nghalon, ac na ad i ddim meldigedig lechu o'm mewn, ond Coetha fi, i'e a thân, am y llofgech fy ammhuredd. O Arglwydd, nid allaf mo'th dwyllo di, ond hawdd jawn i mi fy nhwyllo fy hun; na ad, mi attolygaf i ti, i mi orphywys yn y fath fiomedigaeth; ond gwna i mi gantod a chaffau fy Llygredigaethau dirgelaf, fel na lochwyfi un trachwant anwyl, Eithr llwyr ddinyftrio Pob *Amalekiad.* Na oddef i mi draethu Heddwch i mi fy hun, y pryd na bo Heddwch, ond caniatta i mi fy marnu fy hun yn ol dy farn di am danaf, fel na byddwyt byth mewn Heddwch a mi fy hun nes bod mewn perffaith Heddwch a thithau, ac wedi 'nghymmwyfo trwy burdeb Calon ith weled ti yn dy Deyrnas tryw Jefu Grift.

Am Dduwiol-fryd mewn Gweddi.

O Arglwydd Dduw grafufol, yr Hwn wyt nid yn unig yn Cynnwys, eithr hefyd yn ein gwahodd ni Greaduriaid truain anghenus, i wneuthur ein herfyfmion attat; Caniatta mi a attolygaf i ti, i mi weddio cyn fynyched ammt ag a fo mewn rhyw fefur

yn gyfattebol ir anghenion ſydd arnat am dy Drugaredd. Yr wyf yn cydnabod, O Arglwyyd, mai Anrhydedd a bûdd or mwyaf yw cael o honof neſſau attat; ac er hynny mor ſwrth ac anmheimladwy yw fy nghalon halogedig ai bod yn gwrthod neu 'n ditwyno 'r odfeydd i hynny. Mae Fy Enaid, O Arglwydd, yn llawn o Yſpryd Gwendid, gwedi cyd-grymu heb tedru mewn modd yn y byd ymuniawni attat. O by'd gwiw gennyt jachau y dolur trwm anatus yma, yſprydoliaethu a bywiogi 'r Galon ddanarol ammhur hon, fel y gallo yn rhwydd ac yn rhydd ymddierchatu tuag attat, fel y rhoddwyf fri dyladwy ar y Rhagorfraint werthfawrocaf yma, ac y bo hyfryd gennyf reſſau attat, a dyfod o hon trwy Barch a ſo mewn rhyw fodd yn gyfattebol ir mawrhydi dychrynadwy y byddwyf yn ymddangos ger ei fron; trwy Daerni a Ditriſtwch eyfattebol ir Anghenion y mae arnaf eiſieu eu diwallu; ac ar fath feddyliryd diyſcog yſtyriol ag nad allo dim meddyliau Cyfeiliornus ei rwyſtro fel na bwyf byth rhag llaw yn Euog o neſſau attat am gwetuſau, pan ſyddo nghalon ymmhell oddiwrthyt, ac na throer fy ngweddi yn Bechod, ond gofyn o honof fel y derbyniwyf, ceiſio fel y Caffwyf, Curo fel yr agorer i mi; fel o weddio arnat yma, i'm troſglwydder i'th ſoliannu yn dragwyddol yn dy Ogoniant, Er mwyn Haeddedigaethau a Chyfryngdod Jeſu Criſt.

Am Oſtyngeiddrwydd.

O Y Goruchel ar derchafedig, yr Hwn a breſwyli Drag'wyddoldeb, ac er hynny yn wiw gennyt drigfannu gydag Yſpryd goſtyngedig, tywallt i'm Calon mi a attolygaf i ti, y Gras, rhagorol o Oſtyngeiddrwydd, a ddichon ddiddymmu fy holl feddyliau ofer o honof fy hun; Arglwydd, gwna fi 'n wir Deimladwy om Trueni fy hun; gwna i mi weled

weled mai Truan, a Thlawd a Dall a noeth ydwyf, am hod nid yn unig yn llŵch eithr yn Bechod; fel ym mhob peth a wnelech ac a dreſnech di i mi, y goſodwyf fy llaw ar ty ngenau, gan gydnabod o ddifrif ty mod yn llai nar lleiaf o'th Drugareddau, ac yn fwy nar mwyaf o'th tarnedigaethau. A chaniatta i mi, O Arglwydd, nid yn unig rodio yn oſtyngedig gyda'm Duw, eithr gyda Dynion hefyd, fel na bo i mi yn unig ymddaroſtwng i'th geryddon di, Eithr hefyd i rai ty nghyd Griſtiannogion, a thrwy addfwynder dderbyn ag ufuddhau iw Cynghorion hwynt. A gwna i mi fy ymddwyn fy hun felly tu ag at bawb, fel na wnelwyf ddim byth trwy gynnen neu wagorfoledd; ag i'r diben hwnnw, canniatta fod i mi mewn goſtyngeiddrwydd meddwl dybied yn well o bob dŷn nag o honof ty hun, a bodloni i eraill feddwl telly hefyd; na bo i mi ûn amſer faethu un tyb uchel o honof ty hun, na chwennychu 'r un ymyſg eraill, ond gan ddirmygu gwag-glod gan ddynion, y gallwyf geiſio 'r glod honno ſydd yn dyfod oddiwrthit ti yn unig: fel yn lle 'r dichellion gwael hynny a arferais i er mwyn cael clod gan ddynion, y gallwyf yr awrhon oſod fy holl otal a'm diwydrwydd ar waith i'm gwneuthur fy hun yn gymeradwy yn dy olwg di, yr hwn wyt yn gwrthwynebu 'r balch, ag yn rhoddi gras i'r goſtyngedig: Caniatta hyn, O Arglwydd, er ei fwyn ef yr hwn a'i daroſtyngodd ei hun i angeu 'r groes, ſef, Jeſu Griſt.

Am Ofn Duw.

O Fawrhydi Gogoneddus, yr hwn yn unig wyt ardderchog ac ofnadwy, Llanw fy Enaid ac arfwyd Sanctaidd a pharchedigaeth ti, fel y gallwyf roddi i ti 'r anrhydedd ddledus i'th Enw, a dwyn y cyfryw barch i bob peth a berthyn i ti, fel na bo i mi un amſer halogi dim Sanctaidd, neu gym-

meryd yn gyſſiegr-yſpeiliaidd y peth a ddidolaiſt ti i ti dy hun. A chan dy fod ti, O Arglwydd, yn Dduw yr hwn ni chyfiawnha 'r anwir, bydded i ofn dy Gyfiawnder wneuthur i mi arſwydo dy annog i ddigoſaint; O na ad i mi telly gam-ſefydlu fy ofn, fel yr arſwydwyf ddŷn a fydd marw, a mab dŷn yr hwn a wneir tel glaſwelltyn, ag anghofio 'r Arglwydd fy ngwneuthur-ŵr; eithr llanw fy Enaid a'r ofn hwnnw o'r Arglwydd yr hwn yw dechreuad doethineb, yr hwn a ddichon fod yn ffrwyn i attal fy holl anwydau anifeiliaidd, ag i'm cadw mewn Un ffurfiad parhaus i'th Ewyllys Sanctaidd di. Gwrando fi, O Arglwydd, yr ŵyf yn attolwg i ti, a gofod yr ofn hwn yn fy nghalon, fel na ymadawyf oddiwrthit, eithr gweithio allan fy jechydwriaeth trwy ofn a dychryn, trwy Jeſu Griſt.

Am Ymddiried yn Nuw.

HOll alluog Arglwydd, yr hwn ni phelli un amſer y ſawl a ymddiriedont ynot ti. Dyro i mi, yr ŵyf yn attolwg i ti, Râs yn fy holl gyſtuddiau am blinderau i redeg attat ti, i hyderu a gorphywys arnat ti: tydi, O Arglwydd, a'i cedwi et mewn perffaith heddwch yr hwn ſydd a'i feddwl gwedi ei ſefydlu arnat ti, O bydded i mi yn waſtad orphywys ar y Golofn ddi-ſigl hon, heb ei chyfnewid hi byth am gorſen yſſig o gynnorthwyau bydol; na ad i'm calon fod gwedi ei llenwi a gafalon y bŷd hwn, gan rag-fwriadu beth a fwytawyf, neu a yfwyf, neu a pha beth i'm dilledir; ond canniatta gwedi i mi yn oneſt ag yn ddiwyd wneuthur fy rhan i, y gallwyf yn llawen fy ngorchymmyn fy hun i'th raglunïaeth di, trwy fwrw fy holl ofal arnat ti, ag heb fod yn ofalus am ddim, ond i fod o nifer y rhai 'r wytti yn ei perchennogi ag yn gofalu troſtynt, ſet y cyfryw ag ſydd yn cadw dy Dyſtiolaethau di ac yn me-

ddwl

ddwl am dy Orchymmynion i'w gwneuthur. Fel gan geiſio yn gyntaf dy Deyrnas di a'i gyfiawnder, y gallwyf dderbyn yr holl bethau hyn oddi-allan yn ychwaneg, y cyfryw teſur ag y gwelo dy Ddoethineb di fôd yn oreu i mi; canniatta hyn, O Arglwydd, er mwyn Jeſu Criſt.

Am Ddiolchgarwch.

O Arglwydd graſuſaf a haelionuſaf, yr hwn wyt yn llenwi pob peth byw a'th ddaioni, ag nid wyt yn diſgwyl dim tâl ond Mawl a Diolchgarwch; na bydded i mi, O Arglwydd, byth dy dwyllo di o'r cyfryw deyrnged eſmwyth, ond bydded fy nghalon yn waſtad yn deimladwy, a'm genau yn barod i gydnabod dy drugareddau. Peth llawen a hyfryd yw talu diolch; O na ad i mi, yr wyf yn attolwg i ti, golli fy nghyfran o'r hyfrydwch neſol hwnnw, eithr caniatta megys ag yr wyt beunydd yn derbyn bendithion gennit ti, felly y bo i mi beunydd o eigion calon ddefoſionawl dalu iti Ddiolchgarwch am danynt; a channiatta fod, nid yn unig i'm gweſuſau ond i'm buchedd, ddadcan dy foliant, trwy fy nghyſſegru fy hun i'th waſanaeth di, a rhodio mewn Sancteiddrwydd a chyfiawnder ger dy fron holl ddyddiau fy mywyd, trwy Jeſu Criſt fy Arglwydd, a'm Jachawdr bendigedig.

Am Dduwiol Driſtwch.

O Arglwydd Sancteiddiaf, yr hwn wyt yn derbyn yn raſuſol y gwir edifeiriol, etto wyt yn dân yſſol i bechaduriaid gwrthnyſſig; pa fodd y neſſaf i attat, yr hwn ſydd gennit gynnifer o bechodau echryſlon i ennyn dy lid, a chyn lleied o edifeirwch diffûant i annog dy drugaredd! O bydded gwiw gennit feddalhau a rhoddi fy nghalon galed

hon, fel yr ymofidiwyf yn ddifrifol am anwireddau fy muchedd; taro 'r graig hon. O Arglwydd, fel y ffrydio 'r dyfroedd allan, fel, lliteiriant o ddagraui olchi fy nghydwybod halogedig; fe ddarfu i'm Henaid ſwrth i gyſcu yn rhy hir yn ddifraw mewn pechod, deffro hi, Arglwydd, er trwy daranau, a bydded i mi yn hytrach deimlo dy ddychrynniadau, na bôd heb deimlo fy mhechodau. Ti a ddanfonaiſt dy tendigedig fâb i jachau y rhai yſſig o galon, ond beth a dal hynny i mi, Arglwydd, os bydd fy nghalon i yn gyfan? O torr hitel y bo hi yn gymwys i dderbyn y teddyginiaethus rinwedd hôn; a channiatta, mi attolygaf i ti, gwedi i mi unwaith archwaethu chwerwder pechod, fod i mi ymogelyd rhagddo megys oddiwrth wyneb ſarph, a dwyn allan ffrwythau edifeirwch mewn gwellhâd, buchedd, er mawl a Gogoniant dy Ras di yn Jeſu Griſt ein Prynwr bendigedig.

Am Addfwynder.

O Fendigedig Jeſu yr hwn ar arweinwyd megys Dafad i'r lladdfa, Gâd mi attolygaf i ti, i'r Eſampl ryteddol honno o Lariceidd-dra ddiffodd ynot bob gwreichion digoſaint a dial a gweithredu ynof y cyfryw Addfwynder a thawelwch Ypryd ar na ddichon annogaethau yn y byd byth mo 'i gyffroi. Canniatta, Arglwydd, i mi fod cymmhelled oddiwrth gynnyg y cam lleiaf, fel na bo i mi byth dalu am y mwyaf, ond trwy weddiau a charedigrwydd; ag na bo i mi byth daergeifio ceiniog gan fy mrodyr, yr hwn ſydd gennif gynnifer o dalentau i'w maddeu gennit ti; eithr gan arwiſgo ymyſgaroedd Trugaredd addfwynder, a hirymaros, y gallo dy dangnheddyf dilywodraethu yn fy nghalon, a'i gwneuthur hi yn breſſwylfa gymmeradwy i ti yr hwn wyt Dywyſog Tangnheddyf, i ba un gyd

a'r

a'r Tad a'r Yſpryd glan y bo 'r holl anrhydedd a'r Gogoniant yn dragywyddol.

Am Ddiweirdeb.

O Sanctaidd a di-halogedig Jeſu, deſcyniad cyntaf pa un oedd i tonwes y Forwyn, ag etto wyt yn hoffi preſwylio yn unig mewn Calonnau pûr a morwynaidd; yr wyt yn attolwg i tj ddanfon dy lan Yſpryd i'm glanhau i oddiwrth bob aflendid, yn gyſtal Cnawd ag Yſpryd; ſy nghorph, O Arglwydd, yw Teml yr Yſpryd glan, O na ſydded i mi byth halogi 'r Deml honno trwy neb-rhyw aflendid. Ac oherwydd mai o'r galon y mae 'r pethau hynny yn tarddu 'ſydd yn halogi dŷn, Canniatta, Arglwydd, ſod i mi gadw ſy nghalon a phob diwydrwydd, ſel na bo i neb-rhyw feddyliau aflan llygredig locheſu yno, eithr Cynnorthwya fi, yr wyf yn attolwg i ti, i gadw ſy nghorph a'm henaid yn bur ag yn ddi-halog, modd y gallwyt dy ogoneddu di ymma yn gyſtal mewn Corph ag Yſpryd, a chael ſy ngogoneddu ym mhob ûn o'r ddau gyda thydi yn y Byd a ddaw.

Am Gymmedroldeb

O Arglwydd graſuſol, yr hwn o'th haelioni i ddynol ryw, a ganiadheaiſt i ni arferu dy greaduriad daionus er ein cynhaliaeth corphorol, caniatta ſod i mi yn waſtad arferu 'r rhydd-dyd ymma yn ddiolchgar ac yn ardymmherus; O na ad i mi byth ſod yn gyſryw gaeth-was i'r pleſer anniſeiliaidd hwnnw o archwaeth, ag i'm Bwrdd ſod yn fagl i mi; ond dyro i mi, mi a attolygaf i ti, lwyrfheiddio pob math ar Ormodedd, boed i mi ſwytta ac yſed yn unig ir dibennion hynny, yn ol y cyfran y pennodaiſt hwy i mi, er Jechyd, ac nid i Drythyllwch; na ſydded i mi Arglwydd erlid yn ol y Bwyd

Darſodedig

Darfodedig, eithr 'r hwnnw fy 'n parhau i Fywyd Tragywyddol, fel trwy Newynu a fychedu am Cyfiawnder, y gallwyf fod wedi ynghyflawni ar Gras yma, a'th Ogoniant rhag-llaw trwy Jefu Grift.

Am fodlonrwydd.

O Drugarog Dduw, y mae dy ddoethineb di yn anteidrol i ddewis, a'th gariad yn barod i ddofparthu, pethau daionus i ni; O bydded i mi yn wastad ymroi yn hollawl ag yn gyflawn i'th drefniad di, heb chwennych fy eiddo fy hun, eithr ymfodloni yn hollawl i'th etholiad di drofot, fel ymha gyflwr bynnag y byddwyf, y gallwyf ymfodloni iddo. Caniatta, Arglwydd, na edrychwyf byth yn rwgnachus ar fy nghyflwr fy hun, nag yn genfigennus ar eiddo eraill. Ac i'r diben hwn, yr wyf yn attolwg i ti, lanhau fy nghalon oddiwrth bob rhyw anwydau Cybyddaidd; O na ad i mi roddi i fynu un gongl o'm henaid i Mammon, ond dyro i mi felly ddibrifio 'r golud darfodedig hwn, fel pa un bynnag a wnelont a'i adchwanegu a'i lleihau, na ofodwyf byth mo'm calon arnynt, eithr bôd fy holl ofal i fod yn oludog tu ag at Dduw, a dodi i fynu fy nhryfor yn y Nêf, trwy ofod felly fy nhueddiadau ar bethau oddiuchod, fel pan ymddangofo Crift fy mywyd, y gallwyf finnau hefyd ymddangos gydag ef mewn gogoniant. Caniatta hyn, Arglwydd, er trugareddau 'r unrhyw Jefu Grift.

Am Ddiwydrwydd.

O Arglwydd, yr hwn a ordeiniaift yn dy Ddoethineb i ddŷn gael ei eni i laturio, na ad i mi wrthwynebu dy fwriad hwnnw trwy fy rhoddi fy hun i fynu i fyrthni a feguryd, eithr caniatta i mi felly dreulio fy amfer a'r holl dalentau eraill a roddaift

roddaiſt ti mewn ymddiried i mi, fel na ſyrthiwyſ tan fatn y gwas ſwrth annuwiol; Arglwydd, os yw dy Ewyllys, gwna fi mewn rhyw fodd yn ddefnyddiol i eraill, fel na byddwyf byw megys rhan anſuddiol o ddynol ryw; ond pa un bynnag, O Arglwydd, na ad i mi fôd yn anſuddiol i mi fy hun, ond caniatta fod i mi roddi pob diwydrwydd i wneuthur fy ngalwedigaeth a'm hetholedigaeth yn ſiccr. Y mae fy Enaid gwedi ei hamgylchu a llawer o elynion gwiliadwrus, O na ad i mi blethu fy nwylo i gyſcu ynghanol cymmaint o beryglon, eithr gwilio a gweddio rhag ſyrthio o honot i brotedigaeth trwy ddioddef caledi megis milwr da i Grift Jeſu, nes o'r diwedd i ti fy nhroſglwyddo o'r cyflwr hwn o filwriaeth i'r cyflwr o orfoledd a dedwyddwch yn dy Deyrnas, trwy Jeſu Criſt.

Am Gyfiawnder.

O Frenin Cyfiawnder, yr hwn a orchymynaiſt i mi gadw barn a gwneuthur Cyfiawnder, rhynged fôdd iti o'th ras lanhau fy nghalon am dwylaw oddiwrth bob twyll ac anghyfiawnder, a rhoddi i mi Uniondeb a pherffeithrwydd yn fy holl ymddygiad. O gwna i mi byth gaſhau arferu fy ngallu i orthrymmu, neu 'nghallineb i dwyllo fy mrawd; a chaniatta i mi gadw yn ddyſal y rheol Sanctaidd honno o wneuthur megys y chweny-chwn wneuthur i minneu; fel na ddianrhydeddwyf fy mhroffes Griſtianogawl trwy ſuchedd anghyfiawn neu droſaus, ond bod am hymarweddiad yn y byd mewn ſymlrwydd a duwiol burdeb. heb geiſio byth bentyrru tryſſorau yn y bywyd hwn, eithr cyfrif ychydig trwy Gyfiawnder, yn fwy nag Ardrethion mawr anghyfiawn. Arglwydd, gwna fi yn gwbloſalus i roddi i bob dŷn beth bynnag trwy fath yn y byd ar rwymedigaeth fydd yn ddyledus iddo, fel

na

na thorrwyf byth y rhwymedigaeth o'r perthynasau hynny ynthynt, eithr ty ymddwyn ty hun felly tu ag at bawb, fel na bo i neb ddim drwg i'w ddywedyd am danat, fel, os yw bossibl, y byddwyf dangenhddyfus a phob dŷn; neu, pa fodd bynnag, y gallwyf trwy gadw diniweidrwydd a chyfiawnder gael Tangnheddyf o'r diwedd, fel, heddwch gyda thydi, trwy Jesu Grist ein Harglwydd.

Am Gariad.

O Drugarog, Arglwydd yr hwn a wnaethost o'r un gwaed, ac a brynaist a'r un pridwerth holl Genhedloedd Dynion; na fydded i'm hymysgaroedd i byth galedu yn erbyn neb ar fydd yn gystrannog o'r un anian a phrynedigaeth a mi, eithr caniatta i mi gariad cyffredinol tu ag at bôb dyn. Dyro i mi, o Dad y tosturi y cytryw dynerwch a meddaldra calon, fel y byddwyf yn gwbl-deimladwy o holl drueni a blinderau fy mrodyr oddi-mewn ag oddi-allan, ag ymosod yn ddiwyd hyd yr eithaf o'm gallu i'w cymmorth a'i cynnorthwyo hwynt. O na bydded i'r anghristianogawl serch arnat fy hun feddiannu fy nghalon, ond bwww allan yr Yspryd melligedig hwnnw, a bydded i'th yspryd ti o gariad ddyfod a phreswylio yno; a gwna i mi ymegnio nid i'm boddhau fy hun, ond ty nghymydog er ei ddaioni i adeiladaeth, megys ag na foddhaodd Crist ei hun. Gwna fi, Arglwydd, yn oruchwyliwr ffyddlon o'r holl dalentau hynny a orchymynnaist i mi er lleshad i eraill, fel pan elwi di arnaf i roddi cyfrif o'm goruchwyliaeth, y gallwyf wneuthur hynny trwy lawenydd, ac nid trwy drist wch. Caniatta hyn, Arglwydd trugarog, mi a attolygaf i ti, er mwyn Jesu Crist.

Am

Am Ddyfal-barhad

O Dragwyddol ac anghyfnewidiol Arglwydd Dduw yr hwn wyt yr un ddoe a heddyw ag yn dragywydd; Rhynged bodd i ti gyſtrannu ychydig lewyrch o'r godidowgrwydd hwnnw, rhyw râdd o'r ſefydliad hwnnw i mi dy groadur truan yr hwn wyf yſgafn ag anwadal, yn cael fy nhroi o amgylch gan bob rhyw awel; y mae fy nealltwriaeth yn drathwyllodrus, O cadarnha hi yn dy wirionedd; cadw hi rhag maglau Yſprydion trofaus, fel na'm tywyſſer ymmaith gyd a chyfeiliornad yr annuwiol a fyn-thio oddiwrth fy niyſgogrwydd fy hun: y mae fy ewyllys hefyd, O Arglwydd, yn ſerfyll ag yn anwadal, ac heb lynu yn ddiſigl wrth Dduw, nid yw fy naioni i ond fel y cwmwl y boreu, ag megys y gwlith boreuol yn myned ymmaith. O cryfha a chadarnha ſi, a pha weithred dda bynnag a weithredaiſt ti ynof, bydded gwiw gennit ei pherffeithio a'i chwplhau hyd ddydd Criſt. Arglwydd, tia weli fy ngwendid, ag a wyddoſt nifer a nerth y profedigaethau hynny ſydd i mi i ymryſon a hwynt; O na âd ſi yn ddigynorthwy, eithr gorchguddia di fy mhen yn nydd y frwydr, ag mewn pob ymdrech yſpryduol gwna ſi yn fwy na goreſgynnwr trwy 'r hwn a'm carodd i. O na bydded i neb-rhyw ddychryniadau na gweniaith y byd neu 'm Cnawd byth fy nenu i oddiwrth fy ufudd-dod i ti, eithr caniatta i mi barhau yn ddiſigl ac yn ſefydlog, gan ſod yn waſtad yn helaeth yngwaith yr Arglwydd, a thrwy barhau yn ammyneddgar yn gwneuthur da, i mi geiſio a chael o'r diwedd fwynhau Gogoniant, ac anfarwoldedd bywyd tragwyddol, trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd.

Eglurhâd byrr o weddi'r Arglwydd, i'w harferu megys Gweddi.

O

[*Ein Tâd yr wyt yn y Nefoedd.*]

O Arglwydd, yr hwn wyt yn preſwylio yn y Nefoedd uchaf tydi wyt Awdwr ein bywyd ni, tydi hefyd a'n cenhedlaiſt drachefn i obaith bywiol, ag y mae gennit ti ag at attom dynerwch ag ymyſgaroedd Tad tofturiol. O gwna i ni dalu i ti gariad ag ufudd-dod plant; ac fel y bo'm yn debygu ti ein *Tâd o'r Nef* [y lle hwnnw o wir hefrydwch a phurdeb] dyro i ni ddiccrâwch ſanctaidd o'r holl bleſerau twyllodrus, a llygredigaethau ſhaidd y byd hwn; ag felly derchafa ein meddyliau fel y bo ein hymarweddiad ni yn y Nefoedd, pa ba le yr ydym yn diſgwyl ein Jachawdr yr Arglwydd Jeſu Grift.

[1. *Sancteiddier dy Enw.*]

TAno'r fath arſwyd yn ein calonnau, fel y bo i ni dy berchi di yn ufydd yn dy *Enw*, yr hwn ſydd ſawt, rhyfeddol, a Sanctaidd; a dwyn y cyfryw barch i bob peth a berthyno i ti a'th addoliant ag a eglurhao ein hurddunant i'th ddirſawr. Fawſhydi di. Molianned y bobl di, O Dduw, molianned yr holl bobl dydi.

[2. *Doued dy Deyrnas*]

Sefydla dy Orſeddfaingc a rheola byth yn ein Heneidiau ni, a thrwy allu dy Râs gorchfyga'r holl lygredigaethau gwrthryfelgar hynny ſydd yn ei derchafu ei hunain i'th erbyn; y rheini yw dy elynion hynny y rhai ni fynnant i ti lywodraethu arnynt

arnynt, O dyger hwy allan, a llabyddier hwynt yn dy wydd, a gwna ni yn gyfryw ddeiliaid ffyddlon o'th *Deyrnas* ymma o *Ras*, fel i'n cymmhwyfer i'r *deyrnas o Ogoniant*, ac yna Arglwydd Jefu tyred ar frys.

[3. *Bydded dy Ewyllys a'r y Ddaear*, &c.]

CYnnorthwya ni a'th Ras i gyd-ddwyn yn ewyllysgar a'th *Ewyllys* di yn dy holl geryddon, ac yn bryffur i'w chwplhau yn dy holl orchymmynion ; dyro i ni o'r Zêl nefol hwnnw i'th wafanaeth di a pha un yr yfprydoliaethir yr Angylion bendigedig, fel y gallom ni ufuddhau i ti a'r unrhyw ewyllysgarwch a pharodrwydd, a chan ei dilyn hwynt yn ei hufudd-dod y gallom gael ein cyffyllfu gyda hwynt i ganu tragwyddol Foliant yn dy Deyrnas i Ddaw ag i'r Oen yn Dragywydd.

[4. *Dyro i ni heddyw*, &c.]

DYRO i ni 'r cyfryw barhaus gymmorth o'th ras, ag a ddichon gynnal a meithrin ein heneidiau i fywyd tragwyddol. A rhynged bodd i ti hefyd baratoi i'n Cyrph ni 'r holl bethau hynny a weli di 'n gymwys er ei cynnal hwynt i fynu trwy 'n pererindod daiarol hwn, a gwna i ni hyderu yn llawen arnat ti am danynt, gan geifio yn gyntaf dy Deyrnas di a'i chyfiawnder, ag yna heb ammeu na roddir i ni yr holl bethau hyn yn ychwaneg.

[5. *Madden i ni ein Dyledion*, &c.]

JAchâ ein Heneidiau, O Arglwydd, canys pechafom yn ddirfawr i'th erbyn, bydded dy doftur-drugareddau yn helaeth tu ag attom mewn *maddeuant o'n holl gamweddau* ; a chaniatta, Arglwydd,

na

na bo i ni byth golli dy faddeuant yma, o herwydd gommedd maddeu i'n brodyr, eithr dyro i ni yr ymyſgaroedd hynny o doſturi tu ag at eraill, y ac ſydd arnom lawer mwy o'i eiſieu oddiwrthit ti, ſel y *maddeuom* ni mor hollawl a chyflawn ar Orchymmyn Crift, ag yr ydym yn chwennych cael *maddeuant* er mwyn ei haeddedigaethau ai Gyfryngiod ef.

[6. *Nag arwain ni i Brofedigaeth eithr*, &c.]

O Arglwydd, nid oes dim nerth ynom ni yn erbyn y lliaws hynny o *brofedigaethau* y rhai ſydd beunydd yn rhuthro arnom, ond y mae ein golygon yn unig arnat ti; O rhynged todd i ti naill ai ei hattal nhw neu ein cymmorth ni, ac o'th ffyddlondeb na ad i ni gael ein *temptio* tu hwynt i'n gallu, eithr yn ein holl brofedigaethau, gwna i ni ffordd i ddiangc fel na orchtyger ni ganddynt, eithr gallu o honom pan elwi di ni i hynny, wrthwynebu, i'e, hyd at waed, gan ymdrechu yn erbyn pechod, fel trwy fod yn ffyddlon hyd angeu y rhoddech di i ni Goron y bywyd.

[*Canys eiddot ti yw'r Deyrnas*, &c.]

GWrando ni, ac yn rafol caniatta ein herſynion, canys ti yw Brenhin mawr yr holl ddaiar, yr hwn ſydd a'i allu yn anfeidrol, ag a ddichon wneuthur i ni tu hwynt i'r cwbl a tedrwn nai ei otyn nau 'i feddwl, ac ir hwn y perthyn y *Gogoniant* a'r holl ddaioni yr wyt ti yn ei weithio i ni neu troſom ni. Gan hynny, Bendith, Anrhydedd, Gogoniant, a Gallu a fo ir hwn ſydd yn eiſtedd ar yr Orſeddfainge ſef, i'n Duw ni, yn Oeſoeſoedd.

Ochencidian

Am Faddeuant Pechodau.

TRugarha wrthif, O Dduw, yn ol dy Drugarowgrwydd, yn ôl lliaws dy dofturiaethau dilêa fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr oddiwrth fy anwireddau, a glanha fi oddiwrth fy mhechod.

Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau, a dilêa fy holl anwireddau.

Fy anwireddau a'm gorchfygasant, o bydd di drugarog wrth fy mhechodau.

Na ddos i farn a'th was, o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di.

Er mwyn dy Faw, O Arglwydd, bydd drugarog wrth fy mhechod, canys mawr yw.

Dychwel, Arglwydd, a gwared fy Enaid, O achub fi er mwyn dy Drugareddau.

Am Râs.

DYSC i mi wneuthur dy ewyllys di: canys ti yw fy Nuw.

Dysc i mi dy fordd, O Arglwydd, ac mi a rodiaf yn dy wirionedd: Una fy nghalon i ofni dy Enw.

Crêa galon lan ynof, O Dduw, ac adnewydda yſpryd uniawn o'm mewn.

Bydded fy nghalon yn berffaith yn dy Ddeddfau, el na'm cywilyddier.

Goſtwng fy nghalon at dy dyſtiolaethau: ac nid t gybydd dra.

Tro heibio fy llygaid rhag edrych ar wagedd: bywha fi yn dy ffyrdd.

Dieithr ydwyf fi ar y ddaiar: na chudd di rhagof dy Orchymmynion.

Dysc i mi, Arglwydd, felly gyfrif fy nyddiau

fel y dygwyf fy nghalon i Ddoethineb.

Am Lewyrch wyneb-pryd Duw.

PA ham, Arglwydd, y gwrthodi fy Enaid, ac y cuddi dy wyneb oddiwrthif?

Na chuddia dy wyneb oddiwrthif, ac na fwrw fi ymmaith yn dy lidiawgrwydd.

Gwell yw dy Drugaredd di na'r bywyd.

Arglwydd dercha lewyrch dy wyneb arnat.

Cyfiura Enaid dy was, canys attat ti, O Arglwydd, y derchafaf fy Enaid.

Diolch.

DIOLCHAF i'r Arglwydd bob amfer, ei foliant fydd yn fy negnau yn wastad.

Tiyw fy Nuw, a mi a ddiolchaf i ti: ti yw fy Nuw, ac mi a'th foliannaf.

Canaf i'r Arglwydd tra y byddwyf byw: Molaf fy Nuw tra fyddwyf.

Bendigedig fyddo Duw yr hwn ni fwriodd fy ngweddi oddiwrtho, nag a drodd ei drugaredd oddiwrthif finnau.

Bendigedig a fo'r Arglwydd Dduw, fef, Duw Israel, yr hwn yn unig fydd yn gwneuthur rhyfeddodau.

Bendigedig hefyd fyddo ei Enw gogoneddus d yn dragywydd, a'r holl Ddaiar a lanwer o'i ogoniant ei, *Amen* ac *Amen.*

Am Tnwared oddiwrth Helbul.

TRugarha wrthif, O Dduw, trugarha wrthif, canys ynot y gobeithia fy Enaid; fe, yn nod ed dy anenydd y gobeithiaf, hyd onid ei yr hyn heibio.

Tnwared fi, O Arglwydd, oddiwrth fy ngely canys gyda thi yr ymguddiaf.

Cadw fy Enaid a gwared fi; na'm gwradwydder, canys yr wyf yn ymddiried ynot.

Fy llygaid fydd yn wastad ar yr Arglwydd; canys efe a ddwg fy nhraed allan o'r rhwyd.

Tro attaf, a thrugarha wrthif: canys unig a thlawd ydwyf.

Gofidiau fy nghalon a helaethwyd: dwg fi allan o'm cyfyngderau.

Tros yr Eglwys.

GWNA ddaioni yn dy Ewyllysgarwch i Sion: adeilada furiau *Jerusalem.*

Pa ham, Dduw, y bwri ni heibio yn dragywydd? y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?

Cofia dy gynnulleidfa yr hon a brynaist gynt; llwyth dy Etifeddiaeth yr hon a waredaist: mynydd *Sion* hwn y preswyli yntho.

Amser yw i ti, O Arglwydd, ddechreuu dy Law, canys diddymmasant dy Gyfraith di.

Cyfod, Arglwydd, ag amddiffyn dy achos dy hun; gwared Israel, o Dduw, o'i holl gyfyngderau.

Prif-Fannau byrrion i'n holi ein hunain wrthynt, yn ymwedig o flaen y Sacrament, a pharatoi allan for Trueth awd or blaen, yngbylch Trofeddiadau ein Dledswydd.

I DDUW.

FFYDD.

HEB gredu fod Duw.

Heb gredu iw Air ef.

Heb ei gredu'n ffuchaeddol a'i byw'n gyffredin Crediniaeth.

ANNOGOL AM DDUW.

Anbeithio am Drugareddau Dduw, ac Esgeu-
ſo Dledſwydd or achos.

Rhyfygu yn ddiachos arni, tra i-elony i bo-
gom mewn Pechod gwirfodd.

CARIAD.

HEB garu Duw am ei Gymmeddfau rhagorol.
Heb ei garu am ei Ddaioni i ni.
Heb wneuthur ein goreu iw fodlonief.
Heb chwennych neſſau atto yn ei Ordinhadau.
Heb biraethu am ei fwynhau yn y Nef.

OFN.

HEB ofni Duw cymmhelled ag ymgadw rhag
ei ddigio Ef.
Ofni Dyn yn fwy nag ef, wrth wneuthur pechod a
nwyn gochel rhyw ddioddefiadau bydol.

HYDER.

Heb ymddiried yn Nuw mewn peryglon a Chyfyngderau.
Arfer moddion anghyfreithlon i ddyfod allan o honynt.
Heb roddi 'n goglud ar Dduw am ddiwallu ein Anghenion.
Gormod Gofal am bethau 'r Byd.
Eſgeuluſo llafurio, a diſgwyl i Dduw ein Cadw mewn ſeguryd.
Heb edrych i fynu ar Dduw am fendith ar ein hymegnion cywir.

GOSTYNGEIDDRWYDD.

HEB fod gennym Dyb ardderchog o Dduw.
Heb ymoſtwng yn ufuddgar i wneuthur Ei
Ewyllys Ef.
Heb ei ddioddef yn ammyneddgar, ond grwgnach
o herwydd ei Geryddon.
Heb ymwellhau erddynt.
Heb fod yn ddiolchgar am dawynt. He

Heb gydnabod ei Ddoethineb yn dewis troscom, ond bod gennym ein hunain Ddeisyfiadau taerion anmoddefus.

ANRHYDEDD.

HEB anrhydeddu Duw wrth arferu yn barchedig y pethau a berthynant iddo ef.

Ymddwyn yn annharchus yn ei Dy Ef.

Yspeilio Duw wrth gymmeryd y pethau a gyssegrwyd iw wasanaeth Ef.

Halogi Amseroedd Sanctaidd, Dydd yr Arglwydd, Gwyliau ac Ymprydiau'r Eglwys.

Esgeuluso Darllain yr Ysgrythur Lan, heb yssyried pan ddarllennom.

Bod yn ddiofal am geisio Gwybodaeth on Dledswydd a dewis aros mewn anwybodaeth yn bytrach na chymmeryd poen i ddyscu neu dreulio dim or achos.

Bwrw mai Crefydd yw gwrando Pregethau, heb ymfucheddu'n gyfattebol.

Torri'n Adduned a wnaethpwyd yn ein Bedydd, wrth fyned at Ddewiniaid a swyngyfareddwyr; bynny yw, at y Cythraul.

Wrth Garu Rhodres a Gorwagedd y byd, a dilyn ei Arferion drygionus.

Wrth gyflawni trachwantau'r Cnawd.

Halogi Swpper yr Arglwydd.

Wrth ddyfod iddo yn anwybodol heb ymholi ac Edifarhau a bwriadu Buchedd newydd.

Wrth ymddwyn yn ammharchus yno, heb Ddawioldeb a Chariad Ysprydol.

Wrth Esgeuluso Cadw'r Addewidion a wneler yno.

Halogi Enw Duw trwy Foddyliau neu ymadroddion Cableddgar.

Rhoddi achlyssur i Eraill iw gablu, o herwydd in Bucheddau drwg halogedig.

Cymmeryd Llwon anghyfreithlon. Amudonedd. Tyngu yn ein hymardroddion Cyffredinol.

ADDOLIANT.

HEB Addoli Duw.

Eſceuluſo Gweddiau Cyhoeddus neu ddirgel, a hod yn dda gennym gael Eſgus i wneuthur hynny.

Gofyn Pethau angbyfreithlon neu er Dibennion angbyfreithlon.

Heb puro 'n Calonnau oddwrth bechod, cyn gweddio o honom.

Heb weddio trwy Ffydd a Goſtyngeiddrwydd.

Bod yn Oeraidd ac yn farwaidd wrth weddio.

Meddyliau gwib-grwydrus mewn Gweddi.

Bod y Corph mewn Cyflead anweddaidd wrth weddio.

EDIFEIRWCH.

ESgeuluſo Dledſwydd Edifeirwch.

Heb ein galw 'n hunain i roddi Cyfri on pechodau heunydd.

Heb pennodi rhyw amſeroedd goſodedig neu Ddwiol barchedig i ymddaroſtwng a chyfaddef, neu 'n rhy anfynych.

Heb ddwys yſtyried ein pechodau, i fagu Duwiol Driſtwch.

Heb ddial arnom ein hunain, trwy ymprvd a gwaith edoedd Eraill o Farweiddiad.

ELUN-ADDOLIAETH.

EUlunaddoliaeth oddiallan, yn addoli 'r Creaduriaid Eulunaddoliaeth oddimewn, yn goſod ein ſerch a'n Deiſyfiadau Eraill yn fwy ar y Creaduriaid nag ar y Creawdr.

I N Y N H U N A I N.

GOSTYNGEIDDRWYDD.

Y Mchwydd gan Dyb uchel o honom ein hunain.

O ran Cynneddfau naturiol megys Glendid, ſynhwyr, O ran Golud ac Anrhydedd Bydol.

O ran Gras.

Taer-chwennych Clod gan Ddynion.

Gwneuthur Dledſwyddau Chriſtnogol, megys Gweddi, Eluſen &c. er mwyn hynny.

Gwneuthur Pechod er mwyn gochel anair a gwradwydd gan Ddynion drwg.

ADDFWYNDER.

BLino'n meddyliau trwy ddigoſaint ac amynedd rwydd.

YSTYRIAETH.

HEB holi 'n ofalus beth yw'n Cyflwr tuag at Dduw.

Heb ein profi 'n Hunain wrth y mir Reol, ſef. ein hufudd-dod i Orchymmynion Duw.

Heb ystyr ai Cyfreithlon ein Gweithredodd cyn anturio arnynt.

Heb holi 'n Gweithredoedd or blaen, i Edifarhau am y rhai drwg a rhoi 'r Gogoniant i Dduw am y rhai da.

BODLONRHWYDD.

ANfodlondeb i'n Cyflwr.

Deiſyfiadau chwannog i Anrhydedd a Golud, Coiſio eu hynnill trwy foddion anghyfreithlon.

Cenfigennu o herwydd Cyflwr rhai Eraill.

DIWYDDWYDD SWILIADWRI.

BOD yn Eſgeulus i ddal ſulw ac i wrthwynebu Profedigaethau.

Heb wneuthur y gореu o Ddoniau Duw, Oddi allan ac oddimewn, i'w Anrhydedd Eſ.

Cam-arfer ein Gynneddfau naturol, megys Côf, Synhwyr &c. i Bechod.

Eſgeuluſo neu wrthwynebu cynhyrfiadau yſpryd Duw.

DIWEIRDEB.

AFlendid, Godineb, Putteindra, Trachwantau annaturiol, &c.

Aflendid y Llygad ar llaw.

Geiriau bryntion ſerthaidd.

Meddyliau a Chwantau aſian.

Porthi trachwant wrth beſgi 'r Corph.

Heb geiſio 'i ddaroſtwng trwy ympryd, neu rŷw weithrediadau toſtion Eraill.

CYMMEDROLDEB.

BWytta Gormod.

Bwytta o ran pleſer, nid o ran jechyd.

Bod yn rhŷ foethus neu dreulgar yn ein Bwyddyd.

Meddwdod.

Tfed mwy nag a wna lês i'n Cyrph, er na feddwom, Treulio 'n hamſer a'n Da mewn Cyfeddach.

Cam-arfer Cyfdwr ein ymmennydd i feddwi Eraill.

Cwſc anghymmedrol.

Diogi ac Eſgeuluſdra yn ein Galwedigaethau.

Arfer Diſyrrwch a chwareyddiaeth anghyfreithlon.

Bod yn rhŷ Danbaid a chwannog mewn rhai Cyfreithlon.

Bwyd

Bwrw gormod o amſer wrthynt.
Ymroddi o'u herwydd i Ddigoſaint neu Gybydd-dod ymſalchio o herwydd Dillad.
Ceiſio rhagori ar ein graddau.
Bwrw gormod o amſer neu ofal neu draul o'u herwydd.
Ymgadw oddiwrth y fath ormodedd nid o Gydwybod ond o Gybydd-dod.
Gwaſcu ar ein Boliau i lenwi 'n Codau.

I'n CYMMYDOG.

CYFIAWNDER GOGHELGAR.

GWneuthur Cam a'n Cymydog.
Ymlawenychu yn cythrwblio ei feddwl ef yn ddiachos.
Maglu ei Enaid ef mewn pechod, trwy Orchymyn cyngor.
Cynnhyrfiad, neu Eſampl.
Ei ddychrynu ef oddiwrth Dduwioldeb trwy ei watwor ef.
Heb geiſio dwyn y rhai hynny i Edifeirwch a lithiaſom ni i bechod.

LLOFRUDDIAU.

LLofruddiaeth cyhoeddus neu ddirgel.
Denu dynion i anhynnerwch neu bechodau eraill, a ddichon dwyn clefydau neu farwolaeth.
Cynnhyrfu dynion i gwerylu ac ymladd.
Briwo neu anafu Corph ein Cymmydog.
Creulonder a Chymddeiriogrwydd i'w erbyn ef.

Godineb

GODINEB.

CHwennychu Gwraig ein Cymmydog.
Ei halogi.

CENFIGEN.

ANrheithio Dârhai eraill o genfigen a malis.

CYBYDD-DOD.

CHwennychu Dâ rhai eraill i ni ein hunain

GORTHRECH.

GOrthrech trwy rym a chryfder neu rith Cyfraith.

LLEDRAD.

HEB benthyg yn ôl.
Heb dalu'r peth a addawsom o'n gwir-fodd.
Cadw yn ôl gyflog y gwas a'r cyflogedig.

TWYLL.

ANffyddlondeb mewn ymddiried, pa un bynnag a i'r byw ai i'r marw.
Arferu Celfyddyd o ddichell yn Prynu ac yn gwerthu.
Cymmhelledtreiſiol ar angenrheidiau ein Cymmydogion.

Cam-

CAM-DYSTIOLAETH.

LLygru Enw di ein Cymydog.
Trwy Gam-dyſtiolaeth.
Trwy Sarhaad a drwg ahſen.
Trwy huſtyngu.
Trwy achleſu eraill yn ei henllibiau;
Bod yn rhŷ barod i goelio drwg-air am ein Cymydog.
Ammheuon di-achos.
Ei farnu ef yn fyrbwyll.
Ei ddirmygu oblegid ei wendid.
Gwahodd eraill i wneuthur felly trwy ei wawdio a'i watwor ef.
Dwyn malis yn y Galon.
Chwennych yn ddirgel farwolaeth neu niwed ein Cymydog.
Llawenychu pan ddigwyddo ddrwg iddo.
Eſgeuluſo gwneuthur yr jawn a allom am unrhyw fath ar gamwedd a wnaethom ni i'n Cymmydog.

CYFIAWNDER O WEITHREDIAD.

Goſtyngeiddrwydd.

YMddygiad ſarrug a balch tu ag at eraill.
Ymarweddiad gyndyn ag yſtyfnig.
Ymadrodd chwerw a gwradwyddus.
Rhegu.
Heb dalu'r parch dledus i gymmeddfau neu ddoniau rhai eraill.
Edrych troſtynt yn falch.
Ceiſio lleihau parch rhai eraill iddynt.
Heb wneuthur deunydd o'u gallu, pa un bynnag a'i o'n meddwl, ai o'u da-bydol, i gyfrannu i'r rhai ſydd mewn eiſieu.

Diolch-

DIOLCHGARWCH.

ANiolchgarwch i'r rhai a wnaethant ini ddaioni
Yn enwedig i'r rhai ſydd yn ein rhybuddio ac yn ein Cynghori ni.
Heb wellhau ar ei hargyoeddiad hwynt.
Digio wrthynt am hynny.
Heb berchi ein Tâd Dinaſaidd, ſef, y Llywiawdr cyfreithlon.
Ei farnu a'i Enllibio ef.
Gwarafun iddo ei Deyrnged gyfiawn.
Hau terfyſc ymyſg ei Bobl ef.
Gwrthod ufuddhau ei Orchymynion cyfreithlon ef.
Codi i fynu yn ei erbyn ef, neu ymbleidio a'r rhai a wnant felly.
Dirmygu ein Tadau Yſprydol.
Heb ei caru hwynt er mwyn ei gweithredoedd.
Heb ufuddhau i Orchymynion Duw y' maent hwy yn ei hadrodd i ni.
Ceiſio attal oddi wrthynt ei Cyhaliaeth cyfreithlon.
Ymwrthod a'n Bugeiliaid cyfreithlon i ddilyn dyſcawdwyr ffeilſion a chynnhemus.

RHIENI.

YMddygiad yſtyfnig ac ammharchus tu ag at ein Rhieni naturiol.
Dirmygu a chyhoeddi eu gwendid hwynt.
Heb ei caru hwynt, nac ymegnio i ddwyn cyſſur iddynt.
Diyſtyru ei cynghorion hwynt.
Grwgnach tan ei llywodraeth hwynt.
Chwennych ei Golud hwynt er trwy ei marwolaeth.
Heb gyfrannu a hwynt yn ei hangenion o bôb math
Eſgeuluſo gweddio am fendith Ddaw arnynt.

Eiſieu

Eiſieu Cariad naturiol tu ac at Blant.

Mammau yn gwrthod ei maethu hwynt heb rwyſtr cyſiawn.

Heb ei dwyn hwynt mewn prſd i'w Bedd.

Heb ei hatbrawiaethu hwy mewn pryd yn ffyrdd Duw.

Goddeſ iddynt, o eiſieu ei ceryddu mewn pryd, gael arfer o hechod.

Goſod o'i blaen hwynt Eſamplau drwg.

Ei digulonni hwynt trwy ymddwyn yn greulon a ſarrug tu ac attynt.

Heb baratoi tu ac at ei cynhaliaeth hwynt yn ol ein gallu.

Treulio ei cyfran hwynt yn ein cam-rwyſg ein hunain.

Cadw yr cwbl hyd ein marwolaeth a gadael eiſieu arnynt yn y cyfamſer.

Heb geiſio gadael bendith iddynt o'n hol trwy ein buchedd griſtianogol.

Heb weddio troſtynt.

Eiſieu Cariad tu ac at ein brodyr Naturiol.

Cenſigennau ac ymryſonau rhyngddynt.

DLED I FRODYR

HEb garu ein Brodyr Yſprydol, ſef, ein Cyd-griſtnogion, Heb ſod yn gyd-teimladwy o'i diodde fiadau hwynt.

Ymwrthod yn ddi-achos a'i cyfundeb hwynt mewn Dledſwyddau ſanctaidd.

Heb ddwys-yſtyried angyſlwr a difrawd yr Eglwys.

PRIODAS

PRiodi o fewn y graddau gwahardddedig.

Priodi o ran dibenion amyledus, megys Cybyddod, Trachwant, &c.

Ymddygiad ſarrug ac anheddychlon tu ac at y

Gwr

Gwr neu 'r wraig.
Anffyddlondeb ir Gwely.
Heb gyd-ddwyn a gwendid naill y llall.
Heb ymegnio i geisio daicni naill y llall, Yſprydol neu amſerol.
Y wraig yn gwrthwynebu Gorchymyn cyfreithlon ei Gwr Priod.
Ei hymegniad hi am Reolaeth ac Arglwyddiaeth arno ef
Heb weddio y naill tros y llall.

CYMDEITHAS.

ANffyddlondeb i Gydymmaith.
Dadcuddio ei ddirgelion ef.
Neccâu Cymmorth iddo yn ei angen.
Eſgeuluſo ei gynghori ef yn garedig.
Ei lochi ef yn ei gamweddau.
Ymadael a'i gymdeithas ef ar achos gwael neu yn ddi-achos.
Gwneuthur Cyngrair newn pechod yn lle cymdeithas rhinweddol.

GWEISION.

GWeiſion yn anuſyddhau gorchymynion ei meiſtriaid.
Gwneuthur twyll i'w Dâ bwynt.
Ei hafradloni nhw yn ddioſal.
Grwgnach wrth ei hargyoeddion bwynt.
Seguryd.

Llygad

Llygad wasanaeth.

MEISTRIAID.

MEistrioid yn arferu ei Gweision yn greulon ac yn Orthrymmedig.

Yn rhy Lwfr, ac yn goddef iddynt esgeuluso ei Dledswydd Heb ofalu am ei Henedian hwynt.

Heb edrych am foddion iddynt o athrawiaeth mewn Crefydd.

Heb ei cynghori a'i hargyoeddi hwynt pan bechont.

Heb ganniadu iddynt amser ac odfa i weddi ac Addoliant Duw.

CARIAD.

EIsieu ymysgarodd a Chariad tu ag at ein Cymydogion.

Heb ddeisyf yn ddifrifol ei daioni hwynt Tsprydol ac amserol. Heb garu a madden i'n gelynion.

Tmddial a'n dwylo ein hunain arnynt.

Ffalsder yn proffessu Cariad, heb ddangos dim.

Heb ymegnio i wneuthur yr holl ddaioni a allom i enaid ein Cymmydog.

Heb ei gynnorthwyo ef yn ôl ein gallu [illegible] *bul corphorol.*

Heb amddiffyn ei Enw dâ ef pan wyppom ei fod yn cael ei enllibio.

Naccâu iddo gymmyn as gymdoggaidd i gynnal neu 'i angbwanegu ei gyflwr oddiallan.

Heb ei amddiffyn ef rhag gorthrymder pan yw yn ein gallu wneuthur hynny.

Heb ei gynnorthwyo ef yn ei dlodi.

Heb roddi yn helaeth, neu yn llawen.

MYNED i'r GYFRAITH.

BOD *heb garu Tangnheddyf.*

Myned i'r gyfraith ar achoffion gwael.

Llwyr gelyniaeth o'n mewn tu ac ar y rhai y bom ni yn ymgyfreithio a hwynt.

Heb ymegnio i wneuthur Tangnheddyf ymyfg eraill.

Y Defnydd a wneir or Rheftr yma o Bechodau yw hyn: Ar Ddyddiau ymddaroftyngiad, yn enwedig o flaen y Sacrament, Darllen bwynt troftynt yn yftyriol, ac ymnhob un gofyn i'th Galon dy hun, a ydwyf fi yn Euog o hyn? A pha beth bynnag wrth ymholi felly i'th welych dy hun yn feius o'i bleggid, Cyffadde'n benllant ac yn oftyngedig i Ddduw gyda'r holl angylcheddau Echryflon a ddichon mewn modd yn y byd gymmyddu eu heuogrwydd, a dod dy gwbl-fryd yn erbyn pob Cyfryw Bechod o bynny allan; Gwedi bynny ti a elli arfer y weddi hon fy'n Caulyn.

O

O ARGLWYDD, yr wy'n cywilyddio ac yn gwrido wrth godi fy wyneb attat, Canys anwireddau a aethant tros fy mhenn, am Camwedd a gynnyddodd hyd y Nefoedd. Mi a tûm Luog or holl Bechodau hyn i'th ddigio di, a hynny yn y modd tebyccaf i'th gyffroi i Ddigofaint; nid unwaith ond mynych y gwneuthym yr un gweithredoedd Pechadurus. Canys, O Arglwydd, or holl *reſtr* ddû yma, beth am leied fydd na bum yn fynych yn Luog o honynt? i'e nad wyf gwedi ymarfer ac ymgynnefino à hwynt? Ac heblaw pechu o honot yn tynych, mi a tûm helyd yn chwannog jawn ir pechod ac yn yſtyfnig ynddo, gan droi i'm gyrfa megys March yn rhuthro ir frwydr, gan wneuthur anwiredd am dwy law o ddifrif; gan gaſhau addyſc a gwelhâd buchedd, a thaflu dy Eiriau i'm hol, gan ddiſfodd dy Yſpryd o'm mewn, oedd yn t ſtiolaethu i'm herbyn i'm troi oddiwrth fy ffordd ddrwg; a chan wneuthur yn ofer yr holl roddion oddiallan, Pa un bynnag a'i Barnedigaethau au Trugareddau, a arferaſit i'm tynnu attat dy hun. Ar peth ſydd waeth, O Arglwydd, F'a eſtir cyſtif fy ngweithredoedd o Edifeirwch ymmhlith fy mhechodau mwyaf, weithieu ffugiol a Rhagrithiol a ſuant, a phob amſer cyn yſgatned a chyn anffrwythloned, ag nas dygaſant ddim ffrwyth mewn gwelhad buchedd; Fithe dychwelais fyth megys Ci at ei chwdiad ei hun, ar Hŵch iw hyndreigta yn y Dom, ac a dorrais fy llawnfwriadau am Haddewidau i ychwaneg at fy holl Luogrwydd or blaen. Fel hyn, O Arglwydd, yr aethym yn bechadurus tros ben meſur, a chan ddewis o honot Angeu, teilwng jawn ydwyf i lod yn gyfrannog o hono, ie or ail Farwolaeth, ſef y Pwll o Dân a Brwmſtan. Hyn, hyn, O Arglwydd, wrth gyfiawnder yw rhan fy phiol i. Ni Pherthyn i mi ond cywilydd a gwradwydd wyneb yn dragwyddol; ond gennyt ti, O Arglwydd, y mae Tru-

gareddau a maddeuant er gwrthryfelu o honof i'th erbyn; O na, chofia fy mhechodau am hanwireddau, ond yn ol dy Drugaredd meddwl di am danaf, yn ol dy Ddaioni, Arglwydd. Ti a ddanfonaiſt dy Fab i geiſio ac i gadw yr hyn a gollaſid. Wele, O Arglwydd, mae a aethym allan or ffordd, fel Dafad ar gyfrgoll: O Cais dy wâs a dychwel fi at Fugail ac Eſcob fy Enaid. Pared dy Yſpryd di i mi ddiſtriſol yſtyried a chaſſau fy halogedigaethau ffiaidd, a gwna di i mi 'r fath galon ddrylliog gyſuddiedig ag yr addewaiſt na ddirmygit mo'ni. Ac yna boed gwiw gennyt edrych arnaf i ddelcu fy Anwireddau, ac i'm derbyn yn raſuſol; ac er mwyn yr hwn ni wnaeth ddim ar fai, ymgymmoda di â mi, yr hwn nis gwneuthym ddim yn dda; Golch ymaith Fuogrwydd fy mhechodau yn ei waed Ef, a goreſcyn e'u nerth hwynt trwy ei Ras Ef. A chaniatta i mi, O Arglwydd, allu or Awr hon allan, ymadel yn hollawl a Phob annuwioldeb a chwantau Cnawdol, fel na throwyf byth fy ngolwg at *Sodom* ac nad hiraethwyf am Grochanau Cig yr *Aipht*; Eithr fy nghyſſegru fy hun yn gyfan i ti, i'th waſanaethu mewn Cyfiawnder a gwir Sancteiddrwydd, gan fy nghyfri' fy hunan yn tarw i Bechod, eithr yn fyw i Dduw, trwy Jeſu Grif Harglwydd a'n Hiachawdr bendigedig.

Gellir hefyd yn gyn s arfer y Pſalm Edifeiriol hon,

PSALM.

TRugarhu wrthyf o Dduw yn ol dy drugarogrwydd; yn ol lliaws dy doſturiaethau delea fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd a

a glana fi oddiwrth fy mhechod.

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau; a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.

Yn dy erbyn di, dydi dy hunain, y pechais ac y gwneuthum y drŵg hyn yn dy olwg: fel i'th gyfiawnhaer pan leferych, ac y byddit bûr pan farnech.

Wele mewn anwiredd i'm llunïwyd, ac mewn pechod y Beichiogodd fy mam amaf.

Wele, ceraiſt wirionedd oddi mewn: a pheri i mi wybod doethineb yn y dirgel.

Glanha fi ac Yſop, ac mi a laeheir: golch fi, a byddaf wynnach na'r eira.

Pâr i mi glywed gorfoledd, a llawenydd; fel y llawenycho yr eſcyrn a ddrylliaiſt.

Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau: a dyla fy holl anwireddau.

Crea galon lân ynof o Dduw: ac adnewydda yſpryd uniawn o'm mewn.

Na fwrw fi ymmaith oddi ger dy fron: ac na chymmer dy Yſpryd ſanctaidd oddi wrthyf.

Dyro drachefn i mi ortoledd dy jechydwriaeth: ac a'th nael Yſpryd cynnal fi.

Yna y dyſcaf dy ffyrdd i rai anwâr: a phechaduriaid a droir attat.

Gwared fi oddiwrth waed ô Dduw, Duw fy jechydwriaeth: am tafod a gan yn llafar am dy gyfiawnder.

Arglwydd agor fy ngwefuſau, a'm genau a fynega dy foliant.

Canys ni chwennychi aberth, pe amgen mi a'i rhoddwn; poeth offrwm ni fynni.

Aberthau Duw ydynt yſpryd drylliedig: calon ddrylliog gyſtuddiedig, o Dduw, ni ddirmygi.

Gwna ddaioni, yn dy ewyllyſgarwch, i Sion: a deilada ſurjau *Jeruſalem*.

Yna y byddi fodlon i ebyrth cyfiawnder, i boeth offrwm, ac aberth llôſg, yna'r offrymmant

nesiych ar dy allor.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yspryd glan. Megis yr oedd yn y dechreu y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd, Amen.

GWEDDIAU

Cyn derbyn.

Y SACRAMENT, *Bendigedig.*

O Drugaroccaf Dduw, yr hwn o'th fawr Ddaioni a archwyddaist y Wledd Ysprydol yma i Eneidiau Cleifion newynllyd, gwna i'm chwant am blys iddi tod yn gyfattebol i'm hangen. Mi a dreuliais gyda'r Mâb atradlon y gynnyfgaeth o Râs a roddaist i mi, ac am hynny mae arnaf anteidrol Eisieu fy niwallu or Dryforta hon. Ond, O Arglwydd pa fodd y meiddia y fath Adyn â myfi neffau at y Bwrdd Sanctaidd yma? Ci ydwyfi, pa fodd y rhytygai gymmeryd Bara'r Plant? neu pa fodd y rhoddir y Manna Yfprydol, y Bwyd Angelion yma i un a ddewifodd ymborthi ar y Cibau gyda'r Moch? ie, i un a fathrodd eufys y pethau gwerthfawr hyn cyn fynyched tan ei draed, naill ai wrth efgeuluso'n ddiotal, a'i trwy dderbyn yn annheilwng y Dirgeledigaethau Sanctaiddiol hyn? O Arglwydd, mae fy Echryfion Euogrwydd yn peri i mi grynu ac arfwydo dyfod, ac etto'n peri na feiddiwyf ymgadw oddiwrth y Bwrdd fanctaidd yma; Canys pa le O Arglwydd, y golchir fy Fnaid halogedig oddieithr yn y ffynnon a agoraift ti i Bechod ac aflendid. Yma yntau yr wyf yn dyfod, a thydi

a addewaist na throi byth allan y fawl a ddelo attat Dyma, O Arglwydd, waed y Cyfammod newydd, Caniattâ i mi felly ei dderbyn, fel y byddo i mi am Faddeuant pechodau; ac er i mi cyn fynyched a chyn ffieiddied dorri fy rhan or Cyfammod hwnnw, or hwn y mae'r Sacrament hwn yn Sêl ffeer ddiogel, etto rhynged bodd gennyt ti yn rasusol gyffawni dy ran di; bydd Drugarog wrth fy anghyfiawnder, ac na Chofia mwy fy mhechodau am hanwireddau: ac nid hynny'n unig, Eithr Gosod dy Gyfreithiau o fewn fy nghalon, ac ysgrifenna hwynt yn fy meddwl, a thrwy nerth dy râs Cyweiria fy Enaid i ufuddhau mor ddiragrith ac mor ddianwadal, ag na chythruddwyf mon'ot byth mwy. Arglwydd, Caniattâ i mi nid yn unig gofiau, eithr derbyn fy mendigedig Jachawdr a holl Ddoniau ei Ddioddefaint Et yn y Dirgeledigaethau Sanctaiddiol yma? ac ir perwyl yma dyro i mi'r fath Barodrwydd Enaid, ag am Cymmhwyso i hynny; dyro i mi ddwys Deimlad o'm pechodau ac hanneilyngdod, fel gan fod yn flinderog ac yn llwythog, y byddwyf Cyfaddas i gael ganddo efmwytho arnaf, ac wedi fy mwydo yn fy nagrau fy hun, y byddwyf Cymmwysach i'm golchi yn ei waed Et; Dercha fy meddwl trwm dauarol rhag Croppian yma isod, ac yfprydoliaetha Ef a Zel fanctaidd, fel y gallwyf trwy ferch ac awyddfryd Yfprydol ddyfod ir wledd Yfprydol yma; ac, O Arglwydd, gâd i anfeidrol Gariad Chrift yn marw tros bechadur mor annedwydd, wrefogi ac Ennyn fy Enaid rhewlyd, marwaidd a chynneu ynof y Tan Sanctaidd o Gariad iddo Et, a hynny Cyn wrefocced, ag nad allo na Dyfroedd ei ddiffodd na llif-ddyfroedd ei fodeli, or fath ag a lofgo fy holl anumburedd, ac na adawo un trachwant yn fy Enaid heb ei farweiddio, a hefyd or fath ag a gyrrhaeddo ar bawb y rhoddaift ti i mi orchymmyn i'w Caru, fe Gelynion cyftal a charedigion

digion. Yn ddiweddaf, O Arglwydd dillada fi ar wisg Briodas, a gwna fi er ty mod o'm rhan fy hun yn llwyr annheilwng, etto trwy dy Drugaredd di yn wleddwr Cymmeradwy, wrth y Bwrdd ſanctaidd yma; fel na byddo i mi twytta ac yfed barnedigaeth i mi fy hunan, eithr cael o honof ſelio fy mhardwn, diwygio fy ngwendid, gorch'fygu fy llygredigaethau, a chyflyllu fy Enaid mor ddiwahanedig, a thydi, ag nad allo Brofedigaethau yn y byd byth dorri 'r undeb, Eithr Cael o hono, gwedi ei ddechreu yma mewn gras ei orphen mewn Gogoniant. Caniatta hyn, O Arglwydd, er mwyn dy anwyl Fab, Jeſu Grift.

Un arall.

O Jeſu ſendigedig, yr hwn a'th offrymmaiſt dy hun unwaith ar y Groes, troſoſi, ac wyt yr awrhon yn dy gynnyg dy hun i mi yn y Sacrament, na ad, mi attolygaf i ti, i'm hanediſeirwch am hanneilyngdod wneuthur yr holl Drugareddau hyn, ſydd cyn werthfawrocced, yn anſuddiol i mi, ond cymmwyſa fi trwy dy ras i dderbyn Cyflawn leſhad oddiwrthyut. O Arglwydd, mae arnaf anfeidrol angen am danat. Ond yr wyf gwedi fy llwytho cyn drymmed ag Euogrwydd, gwedi fy nal cyn gaethed ynghadwynau fy mhechodau, ag nad allaf ymſymmud tu ag attat. O rhydda fi oddiwrth y gadwyn ar hon i'm rhwymodd Satan, a thynn fi, fel y rhedwyf ar dy ol di. O Arglwydd, ti a weli chwannocced yr wyf yn calyn llwybrau marwolaeth; Ond pan wyt ti yn fy ngwahodd i Ogoniant yr wyf yn troi fy nghefn, ac yn gwrthod fy nhrugaredd fy hunan. Pe ſawl gwaith yr arlwywyd y wledd yma, a minnau trwy Eſcuſion oſer yn ymgadw oddiwrthi? neu os daethym, i'th gythruddo yn hytrach trag i'th addoli y bu hynny. Mi a ddygais y fath

fyddin-

fyddinoedd o'th Flynion, addefadwy Pechodau di-Ediſeirwch gyda myfi, a phe daethwn nid i gofſau, ond i adnewyddu dy Ddioddefaint, gan dy ail groeſhoelio a'th oſod yn watwor, Ac o ba gofpediga'eth beiiach i m berair yn deilwng; a minneu gwedi mathru tan fy nhraed Fab Duw, a gwneuthur gwaed y Cytammod yn beth allan? Ac er hyn, O Drugarog Jeſu, y Gwaed hwn yw fy unig noddfa: O gwtaed Hwn gynnmod troſof, neu derfydd byth am danaf. I ba beth y tywelltaiſt Ef ond i gadw Pechaduriaid. Ac ni orchuddir ei haeddedigaeth trwy faintioli neu Riſedi Pechodau. Pechadur, Pechadur mawr ydwyfi, O gad i mi gael ei affaithiolaeth jachus. Trugarha wrthyt o Dduw, trugarha wrthyt, Canys ymddiried fy Enaid ynot, ac ynghilfacheu dy friwiau y llechaf, hyd onid el Digoſaint dy Dad heibio. O Tydi, yr hwn, megys fy Archoffeiriad, a wnaethoſt fortlondeb troſof, Eiriol hefyd troſof, a dadleu gyda mi trwy rym dy Ddioddefiadau haeddedigol, ac na ad, O fy mhryniawdr, i werth dy waed fod byth yn golledig: a chaniatta, O Arglwydd, megys y mae gennyt aml Bechodau i'w maddeu, fod i mi hefyd garu yn fawr. Arglwydd, ti a weli oered a lleſged yw fy nghariad i ti; O gwna Ef yn wreſog ac yn fywiog: Ac megys y gofodir allan dy Gariad annrhaethol yn matrw troſof yn y Sacrament yma, felly, mi a attolygaf i ti, dyro gydag Ef y fath ras i mi ag am Cynnorthwyo i wneuthur i ti ryw Daledigaeth o Gariad: O Defcynned y Tan yſprydol yma or Nef i'm Henaid, a bydded fy mhechodau innau yn aberth lloſg iw dita ganddo; fel na leicho im wŷn lygredig, na dim melldigedig yn fy nghalon ac na halogwyf byth drachefn mor lle a ddewiſaiſt yn Demi i ti. Ti a drengaiſt, O Jeſu anwyl, i'm prynu oddiwrth bob anwiredd. O na ad i mi ettto fy ngwerthu fy hun i wneuthur Drygioni. Ond Caniatta i mi ddyfod

yr awrhon attat a llawnfwriadau diragrith, diyſcog i ymwelſnau, a gâd i mi dderbyn y fath râs a nerth oddiwrthyt ag am Cynnorthwyo i'w Cyflawni yn ffyddlon; O Arglwydd, mae ty Enaid yn gruddian tan anrayw hên Ddoluriau cynnefin [*yma Crybwyll am dy Lygredigaethau Cryfaf*] ac er hired yr arhoſwyf wrth Lyn *Bethesda*, er mynyched y delwyt at dy Fwrdd, etto onid Eſtyn di allan dy rinwedd jachus, hwy a tyddant byth heb eu meddyginiaethu. O Feddyg Bendigedig Enaid iau. Caniatta i mi'r awrhon felly dy gyflwrdd, fel yn attalier yr holl ddiferlit ffaidd yma yn ebrwydd, fel na byddo'r Clefydon hyn i Farwolaeth, ond i Ogoniant dy Drugaredd di yn maddeu, i ogoniant dy ras yn glanhau Adyn mor halogedig. O Chriſt Clyw fi, a chaniatta i mi ddyfod attad yr awrhon trwy'r fath Oſtyngeiddrwydd a Chyfnudd Calon, trwy'r fath Gariad a Duwiolfryd Sanctaidd, fel y byddo gwiw gennyt ddyfod attaf, ac aros gyda mi, gan dy roddi dy hun, a holl haeddedigaethau dy Ddioddefaint i mi. Ac yna O Arglwydd, na âd nac i Gyhuddiadau Satan, nac i'm Cydwybod ty hun fy hurtio am penſyrdanu, ond gan fod mewn heddwch a thydi, gwna i mi gael Heddwch hefyd ynoſſy hun, fel y byddo ir Gwin hwn lawenychu ac i Fara'r bywyd gynnal a chryfhau ty nghalon, am Cynnorthwyo i redeg yn gyflurus hyd ffordd dy Orchymmynion. Caniatta hyn, Drugarog Jachawdr, Er mwyn dy ymmyſcaroedd dy hûn a'th Doſturiaethau.

OCHENEIDIAU

Wrth dderbyn SWPPER yr ARGLWYDD.

ARGLWYDD, nid wyf deilwng i ddyfod o honot tan fy nghrongl wyd.

Pechais

Pechais, pa beth a wnaf i ti, O Geidwad Dyn?

[*Yma Cofia rai o'th bechodau mwyaf*]

OS creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd pwy a saif.

Ond y mae Trugaredd gyda'r Arglwydd, ac am hyn ymwared gydag Ef.

Edrych, o Arglwydd, ar dy anwyl Fab, yn yr hwn i'th todlonwyd.

Gwrando ar *Lêr* ei Waed ef, yr hwn sydd yn llefaru pethau gwell na'r Eiddo *Abel*.

Trwy ei ddirfawr Ing ai Chwys gwaedlyd Ef, trwy ei Grôg ai Ddioddefaint, gwared fi, O Arglwydd Daionus.

Oen Duw, yr hwn wyt yn dileu pechodau'r Byd, Caniatta i mi dy Dangnhefedd.

Oen Duw, yr hwn wyt yn dileu Pechodau'r byd, Trugarha wrthyf.

Tchydig cyn derbyn,

TI a ddywedaist, am y sawl a swyttao dy Gnawd, ac a yfo dy waed, fod ganddo fywyd trag'wyddol.

Wele wasanaethydd yr Arglwydd, bydded i mi yn ol dy air,

Wrth dderbyn y Bara.

TRwy dy Gorph Croeshoeliedig gwared fi oddiwrth Gorph y Farwolaeth hon.

Wrth dderbyn y Cwppan.

OBoed i'th waed hwn buro fy nghydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw.

Arglwydd

Arglwydd, os mynni ti a elli fy nglanhau.
O Cyffwrdd a mi, a dywed, mynnaf, bydd lân.

Gwedi derbyn.

BEth a dalaf ir Arglwydd, am ei holl Ddoniau i mi?

Phiol Jechydwriaeth a gymmeraf, ac ar Enw'r Arglwydd y galwaf.

Teilwng, yw 'r Oen yr hwn a laddwyd i dderbyn Gallu, a Chyfoeth, a Doethineb, a chadernid, ac Anrhydedd, a Gogoniant, a Bendith.

Am hynny ir hwn fydd yn Eiſtedd ar yr Orſeddfaine ac i'r Oen, y byddo y Fendith, ar Anrhydedd, ar Gogoniant, ar Gallu yn Oes-oeſoedd.

Diolchgarwch gwedi derbyn SACRAMENT.

O Tydi Ffynnon pob Daioni, oddiwrth yr hwn y mae Pob rhoddiad ddaionus a phob rhodd berffaith yn deſcyn, ac ir hwn y dylid talu yn ôl bob Anrhydedd a Gogoniant, o wreſoccat ſerchiadau Calon ddiolchgar y chwennychwn dy ſolianny a'th fendithio am yr anrhaethawl Drugareddau y bu gwiw gennyt eu rhoddi i mi. Arglwydd, beth yw Dyn pan wneit y fath gyfrif o hono, a danfon dy anwyl Fab i ddiodde 'r fath bethau Chwerwon er ei fwyn? Ond beth wyt i, y Dihirat o Ddynion, i fod i mi ran yn y byd yn y Cymmod yma, a minneu gwedi ei ddirmygu Et ai ddioddefiadau cyn fynyched? O uchder a Dyfnder dy Drugaredd yma, pan welit yn dda ty nghynnwys i adnewyddu 'r cyfammod a dorrais cyn fynyched a chyn wrthnyſſiced. Pan gawn i' fy 'n annheilwng or Bara beunyddiol fy 'n diwallu ac yn cynnal y Corph, fod yn gyfrannog o Fara 'r Bywyd, fy 'n maethu 'r Enaid, a phan yw Duw pob purdeb yn wiw ganddo ymgyfſylltu

ſylltu ag Adyn mor halogedig: O ty Nuw na âd i mi byth mwy mi a attolygaf i ti, droi dy Râs di yn Drythyllwch, wneuthur dy Drugaredd yn achos o Ddiofalwch, ond boed i'th Gariad ennyn hâethol yma fy nghymmhell i ufudd-dod, fel, gan farw o'm Bendigedig Arglwydd trofoſi, na byddwyf byw mwy ach i mi fy hunan, eithr iddo Ef. O Arglwydd, mi a wn nad oes dim Cyttundeb rhwng *Chriſt* a *Belial*, am hynny gan weled o honaw ef yn dda fyned yr awrhon i mewn i'm Calon, O na âd i mi byth gynnwys un trachwant i'w droi Ef allan, ond boed ir Hwn am prynodd cyn ddrutted, gadw meddiant ynof yn waſtadol, ac na chymmered dim mo'not allan o'i ddwylo Ef. I'r perwyl yma boed gwiw gennyt yn raſuſol wilio trofoſi, am hamddeffyn rhag holl ruthrau fy ngelynion Yſprydol; Ond yn enwedig gwared fi rhagof fy hun, rhag twyll a Bradwriaeth fy nghalon fy hun, yr hon ſydd rŷ chwannog i ymroddi yn Yſglyfaeth. A lle y gwelych fy mod wrth naturiaeth neu wrth hir ymarfer, yn fwyaf fy ngwendid, yno mawrhâ di dy nerth, mi a attolygaf i ti, yn fy nghadwedigaeth. [*Yma Crybwyll am dy Brofedigaethau perycclaf.*] Ac, O Arglwydd, na âd i Ddioddefiadau fy Jachawdr, nac ir Addunedau a wneuthym yr awrhon fyn'd byth allan om meddwl; ond boed i Goffadwriaeth y naill fy nghynnorthwyo i gyflawni'r llall, fel na chyttunwyf byth funyd ar Trachwantau a hoeliaſant Ei ddwylo Ef, a drywanaſant ei Yſtlys, ac a wnaethant Fi Enaid yn drift hyd Angeu: Ond gallu o honof, gwedi ail-ymrwymo 'r awrhon tan ei faner Ef, ymladd yn wrol, a dilyn pentywyſog fy Jachawdwriaeth i'e trwy Fôr o waed. Arglwydd, Cyfod i fynu y dwylo a laeſaſant, ar Glinau a ymollyngaſant, rhag deffygio o honof yn hyn o Ffliwriaeth; O bydd di yn nerth i mi, yr hwn o'm rhan fy hun, nid allaf ymdrechu ar Profedigaethau lleſgaf. Pe

lawl

ſawl gwaith y troeſym ſy nghefn yn nydd y Frwydr pa nifer or Addunedau Sacramentaidd hyn a dorraſ Ac, O Arglwydd, mae gennyt byth yr un Galon anwadal, dwyllodrus i'm Lradychu i dorri hwn heiyd. o tydi'r wyt i'e ac Amen yn yr hwn nid oes Gyſcod Troedigaeth, Cyſfranna i mi, mi attolygaf i ti, yſtath ddiyſcogrwydd meddwl, ſel na throwyf byth ond hynny tel bŵa twyllodrus; ond gan ſod am Calon yn gyfan gyda thi, y gallwyf aros yn ddiſtal yn dy Gyfammod, ſel na ddiſtanno un Bwriad da a gododd dy Yſpryd di ynof y Dydd heddyw, [megys y gwnaeth llawer or blaen] ond dwyn o honynt ffrwyth i tywyd trag'wyddol. Caniatta hyn, O Drugarog Dad, er mwyn haeddedigaethau a chyfryngdod ty nghroeſhoeliedig Jachawdr.

Gweddi o Gyfryngdod i'w barfer naill ai cyn ai gwedi derbyn Y Sacrament.

O ARGLWYDD graſuſat yr hwn a geraiſt ddynol ryw cyn anwyled, â rhoddi o honot dy anwyl Fab o'th fynwes i fod yn jawn tros bechodau'r holl fyd, Caniatta i ffrwyth y Prynedigaeth hwnuw fod mor gyffredinol ag yr amcanwyd Ef, ſel y byddon er Jechydwriaeth i bawb. O na ad i neb trwy anediteirwch, neu Bechod gwirfodd golli eiran yddo, Eithr trwy nerth dy ras, dŵg Bawb, i'e'r Pechaduriaid gwrthnyſſiccaf i Ediſeirwch. Goleua i bawb ſy'n gorwedd mewn tywyllwch, Pob *Iuddewon*, Tyrciaid anffyddlonion a *Hereticiaid*; Cymmer oddiwrthynt bob anwybodaeth. Caledwch calon, a dirmyg ar dy Air, ac felly dŵg hwynt adref, wynlydedig Arglwydd at dy Braidd, fel y bo'nt Cadwedig ynmhlith Gweddillion y gwir *Iſraeliaid*, Ac am bawb a elwir ar Enw dy Fab: Caniatta, O Arglwydd, fod eu hymarweddiad yn addas i Efengyl Chriſt; fel na chabler ei Enw mwy ymmyſc y Cenhedloedd o'n herwydd ni. O Arglwydd, pa hyd

hŷd y bydd *Cred* yn rhan ddihiraf or Byd, yn ſugnbwll yr holl Halogedigaethau Erchyll, y mae Barbariaid [*Gwyllt-Daymon digred*] yn eu ffeiddio? O na ad i gymmaint o ragor fod bob amſer rhwng ein Cretydd an hymarweddiad. Na ad i Ddiſcyblion yr Jeſu Sanctaidd, ditrycheulŷd, fod yn anad neb yn ammhur ac yn annuwiol, na ad i Ddeiliaid Tywyſog Tanghetedd fod yn anad neb yn waed-wyllt ar yn ymryſongar; Ond gwna ni yn Grift'nogion mewn gwirionedd yn gyſtal ag mewn Enw, fel y rhodiom yn deilwng or Alwedigaeth Sanctaidd i'n galwyd ildi, ac y bo i ni ag un meddwl ac ag un genau dy ogoneddu di Tad ein Harglwydd Jeſu Grift. Trugarha wrth yr Eglwys Léſg fethedig, edrych i lawr or Nefoedd preſwyliod dy Sanctaiddrwydd a'th Ogoniant. Pa le y mae dy Zél a'th gadernid, cynnhyrfiad dy ymyſcaroedd a'th drugareddau tuag attom? ai eu hattal a wnaethpwyd? na bydd ddigllon jawn, O Arglwydd, ac na choſia'n hanwiredd yn dragywydd; Ond er bod ein gwrthdroſeydd yn aml, a ninnau gwedi gwrthryſela'n drwm aruthr, Ftto yn ol dy holl ddaioni tro ymaith dy ddigoſaint a'th lidiawgrwydd, a llewyrched dy wyneb ar dy Gyſſegr anrheithiedig, er mwyn yr Arglwydd; ac felly gwahana rhyngom ni an Pechodau, fel na wnelont Hwy wahaniaeth mwyach rhyngom ni an Duw. Cadw ac amddeffyn Bob Criſtianogol Frenhinoedd, Tywyſogion a Llywiawdwyr, yn enwedig y rhai y mae Deiliadaeth ac ufudd-dod yn ddledus arnom iddynt. Dadleu eu dadl huynt, O Arglwydd, yn erbyn y rhai a ymryſonant a hwynt, ac ymladd ar rhai a ymladdant a hwynt, ac felly cyfarwydda a chynnorthwya hwynt i gyflawni'r ſwydd a ordeiniaiſt ti iddynt, fel y gallom tannynt hwy fyw'n llonydd ac yn heddychol mewn pob Duwioldeb ac honeſtrwydd. Bendithia weinidogion dy Allor, agor eu Gwefuſau, fel y mynego eu genau dy foliant. O na ddoder Go-

leuadau'r byd tan Leſtr, eithr goſoder hwynt yn eu Canwyllbreunau, fel y goleuont i bawb ſy 'n y Ty; Nadd i Offeiriaid *Jereboam* halogi dy waſanaeth, ond gwaſanaethed Had *Aaron* yn waſtadol ger dy fron. Ac O Dad y Trugareddau, a Duw pob Diddanwch, Cymmorth a diwalla bawb ſydd mewn Blinder ac Adfyd; achub y Tlodion ar rhai a deflir allan, gwna uniondeb ir Gorthrymmedig, deued Ochenaid y Carcharorion ger dy fron, yn ol mawredd dy nerth Cadw blant Marwolaeth; Eſmwytha 'r gofidus, diwalla 'r anghenus, a dod i Bechaduriaid rhyſygus deimlad o'u pechodau, ac i bawb anoteithiol, olwg ar dy Drugareddau; a gwna, O Arglwydd, i bawb lawer mwy nag a tedrant ei Olyn neu ei feddwl. Maddeu i'm Gelynion Frlynwyr at Eullibwyr, a thro eu Calonnau. Tywallt dy Fendithion ar ſy holl Gyfeillion, am Caredigion Cymmwynaſgar, ac ar Bawb a ddeiſyfiaſant ſy ngweddiau. [*Yma gellir henwi rhai wrth henwau,*] A chaniatta, O Dad Trugarog, gael o honom oll, trwy waed y Groes, ein Cyflwyno 'n bûr ac yn ddifeius, ac yn ddiargyoedd yn dy olwg di; fel y caffom felly ein derbyn i breſwylfod y Furdeb, lle ni cheiff dim allan fyned i mewn iddo, yno i ganu Moliadau tragwyddol ir Tad, ar Mab ar Yſpryd Glan yn Oeſoedd.

Gweddi 'n amſer Erlid Cyffredin.

O JESU Fendigedig, yr hwn a wnaethoſt y Groes yn arwydd dy Ddiſgyblion, Cynnorthwya fi, mi a attolygaf i ti, i'w Choſleidio 'n Ewyllyſgar ac yn gyſſurus: Ti a weli, O Arglwydd, fy mod yn byw mewn amſeroedd, yn y rhai, Pwy bynnag a gilio oddiwrth ddrygioni, fa'i gwna ei hun yn Yſpail. O gwna fi cyn barotted i anturio fy holl Berthynaſau bydol, pan fo'n rhaid gwneu-

thur

thur hynny o ran ufudd-dod i ti, fel y bo yn hyn a ddigwyddo yn Yſglyfaeth i Ddynion, yn gymmeradwyaeth i megys Aberth i Dduw. Arglwydd Cadw fi trwy dy ras, fel na ddioddefwyf byth megys Drwg-weithred-wr; ac yna, O Arglwydd, os daw i'm rhan ddioddef fel Chriſtion, nam Cywilyddier, eithr llawenychu a wnelwyf am gael fy nghytri'n deilwng i ddioddef er mwyn dy Enw di. O Tydi, yr hwn er fy mwyn a ddioddefaiſt y Groesgan ddiyſtyru gwradwydd, Boed i Eſampl y Cariad ar Ammynedd hwnnw orfod holl gryndod ac Arſwyd fy nghalon lygredig, fel nad allo Ddychryneligaethau 'n'y byd nam hyſcogi, na'm hanwadalu, ond pa hyd bynnag y goddefech i wialen yr Annuwiol orphywys ar fy nghefn, na ad i'mi Eſtyn fy llaw at ddrygioni. Arglwydd, ti a wyddoſt fy neſnydd, yr wyt yn Cofio mai Cnawd ydwyt; A chnawd, O Arglwydd, a leſga ac a wywa pan ddel dim gofidus yn agos atto. Dy Yſpryd, Dy Yſpryd ti yn unig, a ddichon fy nghynnal i fynu. O! a'th hael yſpryd cynnal fi, fel na flino ac na ddeffygio fy meddwl. A pho mwyaf y cantyddych ty ngwedid, Dangos ditheu fwyfwy dy nerthynof. A gwna i mi, O Arglwydd, ym mhob Profedigaethau, edrych yn ddyfal arnat ti, Pentywyſog a Pherffeithydd fy Ffydd, fel y gallwyf wrth hynny redeg yr Yrfa a oſodwyd o'm blaen i, a gwrthwynebu os bydd achos, hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod. O Jeſu anwyl, gwrando fi, ac er bod Satan yn chwennych fy nghael i'm nithio megis gwenith, etto gweddia Di O fendigedig Ffriolwr, troloſi fel na ddeffygio fy ffydd i, ond er ei phrofi trwy Dân y Caffer hi, mewn mawl a Gogoniant ac Anrhydedd ar dy Ymddangoſiad. A chaniatta, O Arglwydd, mi a attolygaf i ti, fod i mi nid yn unig ymgadw 'n ddianwadal tuag attat ti, eithr mewn Cariad hefyd tuag at Ddynion, i'e

ſawl

ſawl a oddefech i fod yn Gyſiuddwyr i mi: O Arglwydd, na' ſethed gennyf ddilyn dy ryteddol addſwynder di, wrth garu fy ngelynion pennaf a gweddio troſtynt. A gorchatyga Di, O Arglwydd eu drygioni hwynt trwy dy anfeidrol Ddaioni di, trô eu Galonnau a thymn hwynt yn nerthoi attat dy Hun, ac yn y diwedd derbyn fi am Gelynion hefyd i Breſwylfeydd yr Heddwch ar Eſmwythder, lle'r wyt ti yn teyrnaſu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân yn un Duw yn Oeſ-oeſoedd.

Gweddi yn amſer Adfyd.

O Arglwydd Cyfiawn a Sanctaidd, yr hwn a goſpi Ddyn trwy Geryddon am anwiredd, 'r wy 'n taer chwennych ymddaroſtwng tan dy Law alluog fydd yr awrhon yn drom arnaf; 'r wyf o Figion fy nghalon yn Cydnabod nad yw 'r hyn yr wyf yn ei ddioddef ond dyledus wobr fy ngweithredoedd; ac am hynny rhaid i mi tau dy Goſpedigaethau toſtaf, ddywedyd, Cyfiawn wyt ti, O Arglwyddy ac union yw dy Farnedigaethau. Ond, O Arglwydd, mi a attolygaf i ti, mewn barn Cofia am Drugaredd, ac er darfod i'm pechodau dy gynnuell i daro, etto yſtyr ty ngwendid, ac na fid dy wialennodiau yn drymmach nac yn fwy parhaus nag y gwelych hwynt yn fuddiol i'm Henaid; Cerydda fi a choſpedigaeth Tad, nid ag Archollion Gelyn; ac er na thynnech dy wialen oddiarnaf, etto trô y maith dy Ddigoſaint. Arglwydd, na chaſſa fy Enaid, ac na fwrw ymaeth dy was mewn digoſaint, ond maddeu fy mhechodau mi a attolygaf i ti; Ac os wyt, o'th Dadol Dofterhineb, yn gweled yn ddda adael i'th Geryddon barhau yn hwy arnaf, gwnelet dy Ewyllys bendigedig di. Syrthiaf i lawr, O Arglwydd, wrth dy Draed, gwna am fi fel y bydd da yn dy olwg. Coetha fi fel y coethi arian, am y

delwyd

delwyf allan yn ddi-ammhuredd. Ac. O Arglwydd gwna i'm Cnawd hefyd ymfodloni i hyn; fel na byddo dim ynof a wrthryfelo yn erbyn dy law; ond gwedi Cwbl-oftegu pob meddyliau anfodlongar, gallu o honof yfed yn gyffurus or Cwppan yma. Ac er chwerwed y gwelych di yn dda ei gwneuthur. gwna hi, O Arglwydd, yn Feddyginiaeth i jachau holl Ddoluriau ty Enaid, fel y dygo heddychol ffrwyth Cyfiawnder ynof. Ac felly bid i'm byrr yfgafn gyfluddiau hyn weithio gwidog ragorol a thragwyddol bwys Gogoniant i mi, trwy Jefu Grift.

Diolchgarwch am Ymwared.

O ARGLWYDD Bendigedig, yr hwn wyt Drugarog a graflon, hwyrfrydig i lid, a mawr ei Drugaredd ac Edifeiriol am ddrwg, 'r wy 'n cydnabod yn ddiolchgar ger dy fron di, nas gwnaethoft am fi yn ol fy mhechodau ac na wobrwyaift fi yn ol fy anwireddau. Fy ngwrthryfeloedd, O Arglwydd, a haeddafant Yfcorpionau, ond Tydi a'u ceryddaift yn unig a gwialen Efmwyth, Dadol; ac ni oddefaift chwaith i mi hir-orwedd tan *bonno*, ond rhoddaift i mi mewn pryd ymwared graffol oddiwrth fy ngorthrymderau diweddar. O Arglwydd, Llawenychaf a gorfoleddaf yn dy Drugaredd, Canys gwelaift ty adfyd, adnabuoft fy Enaid mewn cyfyngderau. Ti am tarewaift, a thi am hiacheaift. O boed i'th amryw Ddofparthiadau hyn weithio yn gyfaddas ar fy Enaid, fel y to i mi, yr hwn a deimlais doftet dy Geryddon, ofni a gochel pechu: ac megys y teimlais hefyd hyfryd Ddiddanwch dy Drugaredd, felly boed i'm Calon ddirfawr lawenychu ynddi, ac ymgyffylltu a Thydi yngha-arnat rwymau Cariad; a chadwer fi trwy bob un or ddau mewn dianwadal a hollawl ufudd-dod i ti holl Ddyddiau fy Einioes, trwy Jefu Grift.

Hyfforddiadau a chynghorion yn amſer CLEFYD.

PAn wypech ſod Clwyf neu Ddolur yn ymweled a thi, Cofia 'n ebrwydd mai Duw yw 'r Hwn ſydd yn Coſpi Dyn a cheryddon am anwiredd. *Ac am hynny gofala yn gyntaf am ymorol pa beth ai Cyffrodd Ef i'th daro di: ac ir perwyl bwnnw cais holi dy galon dy hun, manwl-chwilia pa bechodau ſydd yno 'n llechu, cyfaddef hwynt yn oſtyngedig ac yn Edifeiriol i Ddduw, ac er mwy diogelwch adnewydda dy Edifeirwch am holl bechodau dy Fuchedd gynt, Taer a difrifol-ddeiſyf ei Drugaredd a'i Faddeuant yn-ghriſt Jeſu, a dod dy gwbl fryd yn ddiragrith ac yn ſerchog-awyddus ar gaſhau pob ffordd ddrwg am yr amſer a ganiatta o Dduw rhagllaw i ti. Ac rhag i'th Galon dy hun dy dwyllo yn y gorchwyl pwyſfawr yma; Gwaith ſynhwyrol i ti gyrchu rhyw Eglwyſwr Duwiol i'th gymmorth, nid yn unig ai weddiau eithr ai Gynghorion hefyd. Ac er mwyn hynny agor iddo dy Galon yn hollawl, fel y gallo farnu a y dyw, dy Edifeirwch yn gyfryw ag a ddichon roddi it i hyder i ymddangos ger bron arſwydus orſeddfainc Duw, ac onid ydyw, fel y gallo dy gymmorth yn ôl ei Allu i'w wneuthur felly. Ac wedi i ti fel hyn ddarbod tros dy ran oreu, ſef dy Enaid, yna ymorol am dy Gorph hefyd, ac yn ôl Gair y Gwr Doeth,* Ecclus. 38. 12. Dyro le ir Phyſygwr, Canys yr Arglwydd ai Creodd Ef. *Arfer y moddion a fo tebyccaf o adnewyddu dy jechyd, ond Cofia bob amſer mai ar law Dduw y mae rhoddi ffynniant, ac ymogel rhag Pechod Aſa. yr hwn* ni cheiſiodd yr Arglwydd yn ei gleſyd, ond y meddygon. 2 Chron. 16. 12. *Trefna befyd dy Dda bydol mewn pryd trwy wneuthur dy*

dy Ewyllys, *a gwna lywodraeth ar bob peth fel y chwennychit ei gadael ar dy Ddydd diwedd, ac nac oeda hynny hyd onid êl dy Glefyd yn drymmach ac yn flinach. O ran ni chei yſgatfydd mo'th Reſwm wrth dy raid yr amſer hwnnw i'th Gymmhwyſo i wneuthur hynny; neu os cei, f'a fydd llawer gwell a thymmoreiddiach i ti oſod dy Feddyliau ar bethau arddercheccach, ar hyd yr ydwyt yn myned iddo yn hytrach nag ar yr hwn yr ydwyt yn ymadel ag Ef; nid allwn ni ddwyn pethau 'r byd hwn gyda ni pan elom oddiyma, ac nid Cymmwys i ni chwaith ddwyn* meddyliau bydol i'n Calyn; am hynny gwna ddiben or rhei'ny gyntaf y gallech, rhag iddynt fod yn rhwyſtr i ti yn dy ddiwedd.

Gweddi i Ddyn Clâf.

O Arglwydd Trugarog a Chyfiawn, Duw, Jechyd a chlefyd, Bywyd ac Angeu, 'r wy 'n Cydnabod yn wir ddiragrith mai 'r Defnydd drŵg a wneuthym or amryw Ddyddiau a ganiatteaiſt i mi mewn nerth ac Jechyd, a haeddodd yn gyfiawn dy ymweliad yr amſer yma. Arglwydd, 'r wy 'n Ewyllyſio Cymmeryd yn oſtyngedig dy Goſpedigaeth am fy nrygioni, a dioddef cerydd yr Arglwydd am bechu o honof iw erbyn. Ac, O Drugarog Dâd, yr hwn nid amceni ddiny ſtr, eithr gwellhad y ſawl a ffrewyllech, mi a attolygaf i ti trwy dy ras Sanctteiddio dy Goſpedigaeth hon i mi, fel y bo Clefyd fy nghorph yn fodd i berl Jechyd i'm Henaid; gwna fi 'n fanwl i chwilio fy nghalon, a chyfarwydda Di fi, O Arglwydd, i ddirnad pob Eſcymmun-beth, er dirgeled y bo 'n llechu yno, fel y gallwyf wrth ei droi allan oddiyno, arloeſi ffordd i droi heibio 'r Goſpedigaeth yma. O Arglwydd, jacha fy Enaid, a bechodd i'th erbyn, ac yna, os dy Ewyllys bendigedig di yw hynny,

jacha fy nghorph hefyd; par etto glywed llawenydd a gorfoledd yn fy nhrigfa, fel y byddwyf byw i'th foliannu di, ac i ddwyn ffrwythau Editeirwch. Ond os darfu i ti yn dy Ddoethineb dreſnu yn amgenach, Os Cwbl-fwriedaiſt ŷ bydd y Clefyd hwn hyd Angeu, mi a attolygaf i ti fy nghymmwyſo am parattoi yn ei erbyn: dyro i mi ddiragrith a difrifol Editeirwch, ir hyn yr addewaiſt Drugaredd a maddeuant; Diddyfna fy nghalon oddiwrth y byd, ai holl hudoliaethau gweigion diflannedig, a gwna i mi hiraethu am y Gorfoleddiadau mwy godidog a pharhaus, fydd ar dy Ddeheulaw di yn dragywydd. Arglwydd, dercha Lewyrch dy wyneb arnaf, ac yn holl Ofidiau fy nghorph, yn holl Gyfyngderau fy yſpryd, boed i'th Ddiddanwch di lawenychu fy E. naid, am cynnorthwyo i ddiſgwyl yn ammyneddgar hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad. A chaniatta, O Arglwydd, pan ddattoder fy nauarol Dŷ or Babell hon, gael o honof adeilad gan Dduw, ſef, Tŷ nid o waith llaw, trag'wyddol yn y Nef; a hynny er ei fwyn Ff, yr hwn trwy ei werth fawr waed ai prynodd i mi, ſef Jeſu Griſt.

Diolchgarwch am gael jechyd.

O Arglwydd graſuſol, Duw Yſprydion Pob Cnawd, yn llaw yr hwn y mae fy amſer, mi a'th foliannaf ac a'th fawrygaf, am i ti, o ran Cariad ar fy Enaid, ei waredu o Bwll Llygredigaeth, ac edfryd dracheſn fy Jechyd i mi; Ti, Arglwydd yn unig a achubaiſt fy Enaid o ddeſtryw, gan goſpi i'm Cofpaiſt, ond ni'm rhoddaiſt i Farwolaeth. O gad i mi gyffegru yn hollawl fy mywyd i ti, yr hwn a arbedaiſt cyn rhadloned. Wele, O Arglwydd, trwy dy Drugaredd, f'am gwnaethpwyd yn jach. O gwna fi yn wir ofalus i ochel pechu mwyach, rhag digwydd i mi beth a fyddo gwaeth. Arglwydd

glwydd, na ad i hyn o hamdden a roddaiſt i mi, i ngwneuthur yn ddiofal, megys un a feddyliai fod fy Arglwydd yn oedi dyfod; Ond Caniatta, mi a attolygaf i ti, i mi wneuthur jawn ddefnydd o'th hir ymaros yma, a gwneuthur y goreu o bob munyd or amſer a ganiattaech i mi, fel pan ymddangoſech di, y byddo gennyf hyder, ac na'm Cywilyddier ger dy fron ar dy ddyfodiad. Arglwydd, mi a wn wrth fod yn awrhon cyn agoſed i Angeu, mor ddychrynadwy o beth yw cael o Ddyn ei ddal yn ammharod; O bydded hyn yn rhybudd gwaſtadol i mi, i wilio am ddyfodiad fy Arglwydd. A phan fo holl Bleſerau Pechod yn ymgynnyg i mi, i'm hudo, O par i'm gofio chwered a fyddant yn y diwedd. O Arglwydd, gwrando fi, ac megys y darfu i ti o'th fawr Drugaredd, hepcor amſer i mi, felly Caniatta i mi ras i weithio allan fy jechydwriaeth fy hunan, i ddarparu *Olew* yn fy *lluſern*, fel pan ddêl y *Priod-fab* y caffwyf fyned i mewn gydag Ef ir *Briodas*. Caniatta hyn, mi a attolygaf i ti, er mwyn dy anwyl Fab.

Gweddi ym mron marwolaeth.

O Drag'wyddol a byth-fywiol Dduw, yr hwn ar y cyntaf a anadlaiſt mewn Dyn anadl Einioes, a phan gymmerych ymaith e'i Anadl y trenga ac y dychwel i'w Lwch; Edrych yn doſturus arnafi Greadur truan. ſydd yr awrhon yn neſu at Byrth Angeu, ar hyn ſydd anfeidrol mwy dychrynadwy, at Frawdle Barn. Arglwydd, Fy nghalon fy hun am barna 'n Fuog, a Thydi wyt anfeidrol mwy na'm Calon ac a wyddoſt bob peth. Y Pechodau 'r wyf yn gwybod oddiwrthynt, ac yn eu Cefo, am llanwant â dychryn; ond y mae llawer jawn o rai Eraill, nas deliais ſulw arnynt yn y Cyfamſer, r.eu a ollyngais tros gôf gwedi hynny trwy Ddiofalwch,

ar Cwblyn amlwg ger dy fron di. Golodi fy anwiredd ger dy fron, am dirgel Bechodau yngoleuni dy wyneb. A pha anferth Fynydd o faintioli yw 'r holl Bechodau a wneuthym bob munyd er ys cynniſer o flynyddoedd? Pa hŷd y ſait y fath Ddyn annuwiol yn dy Farn di, ar fath Bechadur ynghynnull eidfa y rhai Cyfiawn? ac i'chwanegu fy nychryn, 'r wy 'n ofni nad all fy Ediſeirwch chwaith oddet ei brofi; mi a ſyrthiais gynt yn fynych i'm hên bechodau a hynny ſy'n tyſtiolaethu 'n eglur ammhured pedd fy llawnſwriadau or blaen. Ac wrth hynny, O Arglwydd, pa fodd a gallaf i wybod yn ddiogel, nad yw 'r anfodlondeb ſydd gennyt yr awrhon 'im pechodau, yn tarddu oddiwrth fy mherygl erchyll arſwydus, yn hytrach nag oddiwrth un gwir gyfnewidiad? Ac, O Arglwydd, mi a ŵn na fynni di mo'th watwor, ac na dderbyni ddim ond a fo 'n gwbl-bûr ac yn ddiragrith. O Arglwydd, pan yſtyriwyf hyn, Ofn ac arſwyd a ddaw arnaf, a dychryn am gorchuddia; Fy nghnawd a grŷn rhag dy ofn di, am Calon a archollwyd ô'm mewn, Fithr, O Arglwydd, Dyfnder a eilw ar Ddyfnder, Dyfnder fy nhrueni, ár Ddyfndwr dy Drugaredd di; O Arglwydd, achub yn awr, neu dertydd am danaf yn dragywydd. O Tydi, yr hwn ni chwennychi i neb fod yn golledig ond dyfod o Bawb i Ediſeirwch, dŵg fi, mi a attolygaf i ti, er diweddared ydyw, i ddiragrith Edifeirwch a fo Cymmeradwy gennyt ti, Profwr a Chwiliwr y Calonnau. Crea Galon lân ynof, O Dduw, ac adnewydda yſpryd union o'm mewn. O Arglwydd, mae un Dydd gyda thi megys Mil o flynyddoedd, O boed i'th Yſpryd nerthol, yr awrhon ar fy nydd diweddaf, weithio ynof beth bynnag a welych di yn ddeſtygiol i'm Cymmwyſo i gael Trugaredd ac i fod yn gymmeradwy gennyt. Gwnai i mi gyflawn a hollawl-gaſſau fy mhechodau, a chynnorthwya fi i anrhegu i ti yr Aberth

berth o Galon ddrylliog gyſtuddieddig yr hon yr addewäiſt nas dirmygit. Fel y byddwyf wrth hyn yn gyſaddas i gael y Cymmod a wnaeth dy anwyl Fab i Bob Pechaduriaid Ediſeiriol trwy 'r Aberth rhagorol odidog a wnaeth Efe o hono 'i hun. Efe yw 'r jawn tros ein Pechodau, Efe a archollwyd am ein Camweddau, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau, Coſpedigaeth ein Heddwch ni oedd arno Ef; O jacha fi trwy ei gleiſiau Ef, a bodded llef ei waed Ef floedd fy mhechodau i. Plentyn Digoſain yn wir ydwy fi, ond mab dy Gariad yw Efe, Er ei fwyn ef arbed fi, O Arglwydd, arbed dy Greadur, yr hwn a brynodd Efe a'i werthfawroccaf waed, ac na lidia wrthyf yn dragywydd. Yn ei friwiau Ef, O Arglwydd, y Cymmeraf nodded, O na olrheinied dy Ddial fi, i'r Ddinas noddta hon: mae fy Enaid yn ymgynnal arno, O na ad i mi fyned i Golledigaeth ag Jeſu, ag Jachawdr yn fy mreichiau. Ond trwy ei ddirfawr I'ng ai chwys gwaedlyd, trwy ei Grôg a'i Ddioddefaint, trwy gymmaint ag a wnaeth ac a ddioddefodd Efe tros Bechaduriaid, gwared fi, Arglwydd daionus; gwared fi, mi a attolygaf iti, oddiwrth Gyflog fy mhechodau, dy lid a Barnedigaethau trag'wyddol, yn hyn o amſer ty nthällod, yn awr Angeu ac yn nydd y Farn. Gwrando fi, O Arglwydd, Gwrando fi, ac na thal i mi yr awrhon am eſgeuluſo dy alwedigaethau, trwy neccau fy atteb y pryd hwn yn fy angenoctid am cyfyngder mwyaf. Arglwydd, nid oes ond un Cam rhyngof a marwolaeth, O na fachluded yr Haul ar dy Ddigoſaint, Eithr ſelier fy maddeuant cyn fy myned ymaith ac na 'm gweler mwy. Gwell yw dy Drugaredd di na'r bywyd, O gad i mi gael hynny 'n gyfnewid, ac mi ymadawaf yn bur-Ewyllyſgar ac yn llawen ar bywyd marwol hwn. Arglwydd, Ti a wyddoſt fy neiſyfiad, ac nid yw fy Ochenaid guddiedig rhagot; Gwna am fi, O Ar-

glwydd, yn ol dy Enw, Canys melŷs yw dy Drugaredd; Tynn ymaith Golyn Angeu, Fuogrwydd fy mhechodau, ac yna er rhodio o honof yn nyffryn Cyſgod Angeu, nid ofnaf niweid; mewn Heddwch y gorweddaf, ac O Arglwydd, pan ddihunwyf, digoner fi a'th wyneb-pryd yn dy Ogoniant.

PSALMAU.

ARglwydd na cherydda fi yn dy lid, ac na chospa fi yn dy ddigllonedd.

Nid oes Jechyd yn fy nghnawd o herwydd dy ddigllonedd, ac nid oes Heddwch i'm heſcyrn oblegyd fy mhechod.

Canys fy nghamweddau a aethant tros fy mhen, megys baich trwm y mae'nt yn rhŷ drwm i mi.

Fy nghleiſiau a bydraſant ac a lygraſant gan fy Ynfydrwydd.

Am hynny y pallodd fy yſpryd ynof, ac y ſynnodd fy nghalon o'm mewn.

Fy mhechodau am daliaſant fel na allaf edrych i fynu, amlach ydynt na gwallt fy mhen, am hynny y pallodd fy nghalon gennyf.

Eithr Tydi O Arglwydd, wyt Dduw Trugarog a graſlon, hwyrfrydig i lid, a helaeth o Drugaredd a Gwirionedd.

Trô attaf, a thrugarha wrthyf, Canys unig a Thlawd ydwyf.

Os Creffi ar anwiredd Arglwydd: O Arglwydd pwy a ſaif?

Na Chofia Bechodau fy Jeſienctid nam Camweddau, eithr yn ol dy Drugaredd meddwl di am danaf, er mwyn dy Ddaioni, Arglwydd.

Gwêl fy nghyſtudd am Gorthrymder, a mâddeu fy holl anwireddau.

Na chuddia dy wyneb oddiwrth dy was, Canys Cyfyng yw arnaf, bryſſia gwrando fi.

Or

O'r Dyſnder y gelwais arnat, O Arglwydd, clyw ty lleſain.

Dychwel, Arglwydd, gwared ty Enaid, achub fi er mwyn dy Drugaredd.

Nac ymbellha oddiwrthyf, Canys Cyfyngder ſydd agos, ac nid oes Cynnorthwywr.

Eſtynnaf fy nwylo attat, ty Enaid a hiraetha am danat megys Tir Crâs a ſychedig heb ddwfr.

Neſſâ at ty Enaid a gwared Ef: achub fi o herwydd fy nge'lynion.

Canys ty Enaid ſydd lawn o flinder, am heinioes a neſſâ i'r Beddrod.

Achub fi O ſafn y Llew, gwrando fi o blith Cyrn Unicorniaid.

Gofod fi ar Graig ſydd uwch na myfi, Canys ti yw fy ngobaith, am Twr Cadarn rhag wyneb ty ngelyn.

Pa ham i'th ddaroſtyngir ty Enaid, a pha ham y terfyſci ynof?

Gobeithia yn Nuw, Canys moliannaf ef etto, am jechydwriaeth ei wyneb-pryd.

Yr Arglwydd a gwplha ei Drugaredd tuag attaf, Dy Drugaredd, Arglwydd a bery 'n drugywydd, na ddirmyga waith dy ddwylo.

O DDUW, Ti yw fy Nuw yn foreu i'th Geiſiaf.

Sychedodd ty Enaid am danat, hiraethodd fy nghnawd a'm danat mewn tir Crâs a ſychedig heb Ddwfr.

Fel y brefa 'r Hŷdd am yr Afonydd Dyfroedd, felly yr hiraetha ty Enaid am danat ti, O Dduw.

Sychedig yw fy Enaid am Dduw, am y Duw byw, pabryd y deuaf ac yr ymddangoſaf ger bron Duw.

Mor hyfryd yw dy bebyll di, O Arglwydd y Lluoedd!

Ty Enaid a hiraetha, i'e ac a flyſa am gynteddau

ddau 'r Arglwydd; Fy nghalon am Cnawd a waeddant am y Duw byw.

O na bai i mi Adenydd megys Colommen! yna 'r Ehedwn ymaith ac y gorphwyſwn.

Anfon dy Oleuni a'th wirionedd: tywyſant hwy fi ac arweiniant fi i Fynydd dy ſanctteiddrwydd, ac i'th Babell.

Canys gwell yw Diwrnod yn dy gynteddau di na mil.

Dewiſwn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo ymmhebyll annuwioldeb.

Deffygiaſiwn pe na chredaſwn weled Daioni 'r Arglwydd yn nhir y rhai byw.

Fy nghymmorth ſam gwaredydd ydwyt ti, fy Nuw, na hir drig.

O, CHENEIDIAU.

GAn bwy y mae i mi geiſio ymwared, onid genyt ti Arglwydd, yr hwn am fy mhechodau wyt yn gyfion yn ddigllon? Er hynny, O Arglwydd Dduw ſanctteiddiaf, O Dduw galluoccaf, O ſanctaidd a thrugarog Jachawdr, na ollwng fi i ddygn chwerwaf boenau Angeu trag'wyddol.

Ti, Arglwydd, a adwaenoſt Ddirgelion fy nghalon, na chae dy Gluſtiau trugarog oddiwrth fy ngweddi, Eithr gwrando fi, O Arglwydd ſanctteiddiaf, O Dduw galluoccaf, O ſanctaidd a thrugarog Jachawdr, Tydi deilyngaf Farnwr trag'wyddol, na ad fi yn yr awr ddiweddaf, er neb rhyw Boenau Angeu, i ſyrthio oddiwrthyt.

Fy nhâd, Pechais yn erbyn y Nef ac o'th flaen ditheu, ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn Blentyn i ti; Er hynny na ſwrw di ymaith ymmyſcaroedd a thoſturiaethau Tad; ſ Ond megys toſturia Tad wrth ei Blant, felly trugarha di wrthyf inneu.

Arglwydd, mae Tywyſog y byd hwn yn dyfod

O na bydded iddo ddim ynoſi, ond megys y Cyhuddo Eſ, rhyddha ditheu. nae Efe yn rhoddi llawer o achwynion trymmion i'm herbyn, ac f'a wyr yn rhydda pa ſutt iw phroſi: nid oes gennyt ddim i'w ddywedyd troſof fy hun, atteb di troſoſi, O Arglwydd fy Nuw.

Arglwydd, 'r wyf wedi fy ngwiſco a dillad budron, a Satan yn ſefyll ar fy neheulaw i'm gwrthwynebu. O bid gwiw gennyt ei geryddu Ef, a thynn fi megys Pentewyn allan or tan, fymmud fy anwiredd oddiwrthyt, a gwiſc fi a Chyfiawnder dy Fab.

Wele, O Arglwydd, y mae 'r Cythraul yn deſcyn attaf, a chanddo lid mawr, o herwydd ei fod yn gwybod nad oes iddo ond ychydig amſer. O achub a gwared fi. rhag iddo ddinyſtrio fy Enaid fel llew, ai rwygo pryd na bo gwaredydd.

O fy Nuw, mi a wn nad all dim aflan fyned i mewn i'th Deyrnas di, ac nid wyf imeu ddim ond aflendid, megys brattiau budron yw fy holl Gyfiawnderau, Golch fi a Glanha fi yngwaed yr Oen, fel y byddwyf cymmwys i ſefyll ger bron dy Orſeddfainc.

Maglau Angeu am hamgylchynaſant, na ddalied Gofidiau Uffern mo'noſ, ond er Cael o honof flinder ac adfyd, etto attolwg, Arglwydd, gwared fy Enaid.

O Jeſu anwyl, yr hwn am prynaiſt a gwerthfawr bridwerth dy waed dy hun. Hola yn awr dy bryniant, ac nad allo Ddrygioni Uffern dynnu mo'noſ o'th law di. O wynfydedig Archoffeiriad, yr hwn a fedri gadw hyd yr Eithaf y fawl a ddelont at Dduw trwot ti, Cadw fi, mi attolygaf i ti, yr hwn fydd heb ddim Gobaith, ond yn dy haeddigaethau di a'th Gyfryngdod.

O Dduw, 'r wy 'n cydnabod anfurfio o honof, dy bdelw a argraphaiſt ti ar fy Enaid.; Er hynny

O

O Greawdr ſtyddlon, toſturia wrth dy Greadur.

O Jeſu, mi a'th ail-groeſhoeliais trwy amryw bechodau trymmion, Etto Tydi, yr hwn a weddiaiſt tros dy Erlidwyr, Eiriol troſot ſinneu hefyd, ac na âd, O ty mhryniawdr, i'm Henaid [Gwerth dy waed] fyned i golledigaeth.

O Yſpryd y Rhâd mi a'th ddiyſtyrais trwy fy amryw amvireddau Echryſlon: Er hynny, O Ddiddanydd bendigedig, er i mi yn tynych dy driſtau di, Cymmorth a chyſſura di ſi, a dywed wrth fy Enaid, myſi yw dy Jechydwriaeth.

Fy Llygaid a edrychant arnat ti, O *Arglwydd*, ynot ti yr ymddiriedaf, na ad fy Enaid yn ddiymgeledd.

Arglwydd, ynot yr ymddiriedais, na 'm gwradwydder yn dragywydd.

O WYNEBPEDIO Arglwydd, yr hwn a ſſlangellodd mab a dderbyniech, na âd i mi ſſino ar dy Gerydd, Caniatta i mi hollawl ymoſtwng i ti, Tad yr yſprydoedd, fel y byddo 'r Goſpedigaeth hon er lleſhâd i mi, ac fel y byddwyf gyfrannog o'th Sancteiddrwydd.

O Pentywyſog fy Jechydwriaeth, yr hwn a berffeithiwyd trwy Ddioddefiadau, Sancteiddia fy holl Oſidiau fy nghorph, a holl Ddychrynedigaethau fy meddwl a oddefech di i ſyrthio arnat.

Arglwydd, fy mhechodau a haeddaſant boenydiau trag'wyddol, gwna i mi yn gyſſurus ac yn ddiolchgar ddioddef y goſidiau hyn, Coſpa ſi fel y gwelych yn dda yma, fel na'm damnier gyda 'r Byd.

O Arglwydd, y Dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy Enaid, o ymgynhyrfed dy Yſpryd ar y Dyfroedd hyn, a gwna hwynt megys Llynn *Bethesda*, fel yr jachaont bob Clwyf yſprydol a ganddŷch di ynof.

O Chriſt, yr Hwn yn gyntaf a ddioddefaiſt lawer o bethau

bethau trymion, ac wedi hynny a aethoſt i mewn i'th ogoniant, gwna i mi telly ddioddef gyda thi. fel i'm gogonedder gyda thi.

O Jeſu anwyl, yr hwn a'th ddaroſtyngaiſt dy hun i Angeu 'r Groes troſoſi, pereiddied dy ſarwolaeth honno chwerwder fy marwolaeth i.

Pan orchyſygaiſt holl nerth Angeu, yr agoraiſt Deyrnas Nef i bawb a gredant.

Yr wyf yn credu mai Tydi a ddaw yn Farnwr arnaf.

Gan hynny yr attolygaf i ti gynnorthwyo dywas, yr hwn a brynaiſt a'th werthfawr waed.

Pâr i mi gael fy nghyfri 'gyda 'th ſainct, yn y Cogoniant tragwyddol.

Tydi yw 'r Adgyſodiad ar bywyd, y neb a gredo ynot ti, er iddo farw, a fydd byw: yr wyfi yn Credu, O Arglwydd, Cymmorth fy anghredinjaeth.

Pallodd fy nghawd am Calon, ond nerth fy nghalon am rhan yw Duw yn dragywydd.

Mae gennyf chwant i'm datrod ac i fod gyda Chriſt; Canys llawer jawn gwell ydyw: Arglwydd, yr ydwyt yn ocheneidio, gan ddeiſyfu Cael fy arwiſco am Tŷ ſydd or Nef.

Yr wy 'n Chwennych bwrw ymaith dy mhabell hon; O derbyn fi i Drag'wyddol Bebyll.

Dwg fy Enaid allan o Garchar, fel y moliannwyf dy Enw.

Arglwydd, rhaid i mi yma ymdrechu nid yn unig yn erbyn Cnawd a Gwaed, ond yn erbyn ywyſogaethau, yn erbyn Awdurdodau ac yn erbyn Drygau yſprydol. O cymmer fi o Bebyll *Cedar*, *Jeruſalem* Nefol. lle y ſethrir i lawr *Satan* tan y nhraed.

Ni fedraf yma roddi mom bryd tros un munyd dy waſanaeth heb feddwl am ryw bethau Eraill, O cymmer fi i fynu i ſefyll ger bron dy Orſeddfaine

ſeddfainc, lle y Caf dy waſanaethu Ddydd a nôs.

Yr wyt yma mewn trymder o herwydd amryw ſinderau, o derbyn fi i'r Drigfan heddychlon honno, lle y ſychir ymaith bob Dagrau oddiwrth cin llygaid, lle ni bydd marwolaeth mwyach, na thriſtwch, na llefain na phoen ni bydd mwyach.

Mewn cyfiawr Alltud Caethiwus yr wyf yma, ac ymmhell oddiwrth yr Arglwydd, o dwg fi i'r tann lle y caffwyt weled dy wyneb yn dragywydd, a dilyn yr Oen i ba le bynnag yr elo.

Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphennais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd; o hyn allan rhoddwyd Coron Cyfiawnder i'w chadw i mi.

O JESU wynfydedig, yr hwn am ceraiſt, ac a olchaiſt fy mhechodau trwy dy waed, derbyn fy Enaid.

I'th law di y gorchymmynaf fy Yſpryd, Canys ti am prynaiſt, o Arglwydd Dduw y gwirioneddTyred, o Arglwydd Jeſu, tyred yn fuan.

GWEDDIAU *iw harfer gan y rhai a alarant yn ddirgel o herwydd y* BLINDERAU CYFFREDIN

PSALM 74.

Pa ham, Dduw, i'n hwriaiſt beibio yn dragywydd, ac y myga dy Ddigofaint yn erbyn Defaid dy Borfa?

Pſalm 79. *Y Cenhedloedd, O Dduw a ddaethant i'th Etifeddiaeth, halogaſant dy Deml ſanctaidd, gwnaethant* Jeruſalem *yn garneddau*, &c.

Pſalm 80. *Gwrando, O fugail* Iſrael, *yr hwn wyt yn arwain* Joſeph *fel Praidd, ymddiſcleiria yr hwn wyt yn eiſtedd rhwng y* Cherubiaid, &c.

Gweddiau iw harfer yn amſer Blinderau.

O Arglwydd Dduw 'r Dial, 'r wy 'n chwennych Cyfadde 'n oſtyngedig ger dy fron o'm rhan fy hun ac o ran y wlad yma, nad yw 'r amryw ſlynyddoedd o Adfyd y buom yn grûddian tanynt, ond taledigaeth Cyſiawn [i'e eſmwyth] am lawer ychwaneg o ſlynyddoedd y buom yn dy gythruddo di trwy ein Pechodau, ac nad yw dy Lidiawgrwydd yr awrhon ond Coſpedigaeth ddyledus am gam-arfer dy Drugaredd. O Arglwydd, Helaeth jawn a fu dy Fendithion i ni gynt yn a-nad Gwlad yn y byd. Dy Ganwyll a lewyrchodd uwch ein pennau, ac ymhyſrydaſom yn dy fawr Ddaioni. Heddwch oedd o fewn ein rhagfuriau, a

ffynniant

ſtynniant yn ein *Palaſau*. Nid oedd na rhuthro i mewn, na myned allan, na Gwaedd yn ein Heolydd: ond nyni a droeſom y Gras yma yn drythyllwch, ni a ddyſtyriaſom ein Heddwch i ddiofalwch, ein llawnder i Gyfeddach ac anghymmedroldeb, ac a whaethom y pethau a ddylaſei garuciddio ein Calonnau i ti, yn foddion iw heſtroneiddio oddiwrthyt. Ac o Arglwydd, Ti a roddaiſt i ni etto werthfawrocaach Trugareddau, Ti a welaiſt yn dda o-fod dy Babell gyda ni. Sefydla Eglwys bûr, ogoneddus yn ein plith, a rhoddi i ni dy Air i fod yn ganwyll i'n Traed, ac yn llewyrch i'n llwybrau: ond o Arglwydd, ni whaethom ni ddim defnydd or Goleuni hwnnw ond i'n harwain i Stafelloedd Angeu: Beilchion a fuom, ac ni wrandawſom ar dy Orchymmynion, ac wrth wrthryſela yn erbyn y Goleuni, ni a ymhillaſom i ni hunain Etifeddiaeth drymmach yn y tywyllwch Eithaf. Ac yn awr, o Arglwydd, pe buaſei lifeiriaint dy ddialeddau di yn gyflattebol i amlder ein Pechodau ni, t'an hyſcubaſid ymaith er yſtalm i ddeſtryw dilymmwth, ac ni buaſei i neb o honom yn fyw heddyw i Erlyn dy drugaredd. ond duw Trugarog a graſlon, Ydwyt ti, hwyrfrydig i lid, ac ymddygaiſt tuag atom mewn mawr ammynedd a hirymaros, Ti a anfonaiſt dy Farnedigaethau i'n deffro i Editeirwch, ac a ganiatteaiſt i ni hefyd hamdden i hynny: ond och! ni a whaethom waeth defnydd o'th drugaredd hon nag, or holl rai gynt, ni ddychwelwn ni at yr hwn an tarawodd, ac ni cheiſiwn yr Arglwydd; Ciliaſom yn ôl ag Eneil drag'wyddol, nid Editarha neb am ei anwiredd, gan ddywedyd, beth a wneuthym i? Gwir ydyw fod arrom ofn y wialen [ein bod yn arfwydo rhag pob Dioddefiadau, ac yn barod i'r pechod fheiddiaf er mwyn eu gochelyd] ond nid ydym yn ofni mor hwn o'i hordeiniodd, eithr trwy wrthnyſigrwydd annaturiol yn Caledu

yn

'ngwarrau yn dy erbyn, ac yn gommedd dychwelyd. Ac O Arglwydd, pa Ennaint bellach ſydd yn *Gilead* a ddichon ein hiachau ni, a ninnau pan chwenychit ein jachau, yn gwrthod ein hiechyd. Nid wyddom ſynegi o honot na bydd Heddwch ir Annuwiol, a pha fodd ynteu, y gweddiwn ni am Heddwch, a ninnau yn aros byth yn ein hannuwioldeb. Hyn, hyn, O Arglwydd, yw 'n dolur trymmaf, O dyro i ni feddyginiaeth i jachau ir Cl'wyf yma. Jachâ ein Heneidiau, ac yna ni a wyddom y gelli wellhau ar ein Gwlâd. O Arglwydd, Tydi a fuoſt yn hir yn ymddiddan a'n Cluſtiau trwy dy Air, ac a'n holl ſynhwyrau trwy dy ſarnedigaethau. Ond onid ymddiddeni a'n Calonnau trwy dy Yſpryd, ni bydd pob Galwedigaethau eraill ond llwyr anfuddiol. O anfon y llef yma, a hoono'n llêf nerthol, i'm deffroi or hûn glwyf marwol yma. Tydi yr hwn a elwaiſt *Lazarus* or bedd, O galw ninnau fydd gwedi meirw, i'e gwedi brenu mewn Camweddau a Phechodau, a gwna i ni ddeffro i Gyfiawnder, Ac er darfodri ni wrth ſyrych wrthwyneb dy Alwedigaethau, oddimewn roddi i ti gyfiawn achos i ddgi, ac i'n rhoddi i fynu i Dragiawn Trugaredd, yr hwn wyt Ddaionus nid yn unig uwchlaw yr hyn a haeddem, eithr hefyd uwchlaw a fedrem ei ddymuno, na thynn ymaith affaithiolaeth dy Râs ac na chymmer dy Yſpryd glân oddiwrthym. Ti a gafwyd gan y rhai ni'th Ceiſiant: O gwna etto 'r un Drugaredd i ninnau, y rhai ydym mor lleſg ddiobaith, ac er hynny mor ddideimlad o'n dolur, ag nad ymorolwn am y Phyſygwr; A pho peryclaf yw 'n Dolur, bydded y feddyginiaeth a roddech yn fwyaf jachuſol. Arglwydd Cymmorth ni, ac yſtyr nid ein hanneilyngdod i gael ymwared, ond annedwydded a fyddwn, os na chawn; achub, Arglwydd, neu darfu am danom

yn dreig'wydd. Ac ir perwyl yma, dyro i ni'r fath gyfran o berthau da amferol ag a welych yn gymmhwyſaf i ddiogelu ein bûdd yſprydol; Os bydd mwy Cyfran o Drueni Corphorol yn fodd i jachau ein hadwyth yſprydol, Arglwydd, nac arbed y wialen, eithr taro etto yn ddwyfach. Bwrw allan y Gythraul yma, er maint a rwygo ac a falo o Eiwyn. Ond os gweli fod rhyw teſur o Drugaredd yn gyffelypaf i'n meddalu, O bid gwiw gennyt ymddaroſtwng cyn iſed at ein hanghyfiawr, a chaniatau hynny i ni, a pha un bynnag ai trwy ffyrdd geirwon ai trwy rai eſmwyth, iŵg ni adref attat dy hun. Ac yna, O Arglwydd, ni a wyddom na fyrhawyd dy law, fel nad allo achub: Gwedi'n gwaredu o honot oddiwrth ein Pechodau, ti a fedri ac a fyddyfi'n gwared oddiwrth ein blinderau. O dangos i ni dy Drugaredd, a chaniatta i ni dy Jechydwriaeth, fel gwedi ein prynu yn ein Cyrph a'n heneidiau, y gogoneddom di ymmhob un or ddau, mewn uſudd dod llawen, cyſſurus, ac y moliannom Enw'n Duw, yr hwn a ddangoſodd yn rhyfedd ei Garedigrwydd i ni, trwy Jeſu Grift.

Gweddi tros yr Eglwys bon.

O Ddaw mawr y Taledigaeth, yr hwn a wnei Dir ffrwythlon yn ddiffrwyth am ddrygioni'r ſawl a drigant ynddo. Ti a ollyngaiſt y larn refyncl honno i fyrthio yn drwm ac yn gyſiawn ar yr Eglwys yma, yr hon gwedi bod unwaith yn hetiuſdrwydd Tegwch, ac yn llawenydd yr holl Ddaear, a wnaethpwyd yn awrhon yn wawl ac yn warthrudd i bawb ſydd o'i hamgylch. Arglwydd beth a allefid ei wneuthur i'th wiwlan nas gwnaeſhoſt iddi? a channa ddîg hi ond grawn gwyſtrion, peth cyſiawn jawn oedd i ti dynnu ei hamgwrydd, a gadael ei yhori hyd lawr. Eithr, O Arglwydd